891.661
J716c

CANEUON TALHAIARN

THE UNIVERSITY
OF ILLINOIS
LIBRARY
891.661
J716c

Digitized by the Internet Archive
in 2016

https://archive.org/details/caneuongydarhagd00jone

Caneuon Talhaiarn.

Caneuon Talhaiarn.

Gyda

Rhagdraeth

gan

Anthropos.

"Y mae llawer iawn o brydferthwch a chywreinrwydd yn nghaneuon goreu Talhaiarn: ac yn y gwaith o gyfansoddi geiriau ar gyfer alawon Cymreig nid yw hyd yn oed Ceiriog yn feistr arno."—CANIADAU CYMRU.

Caernarfon:

Cyhoeddedig gan Gwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig (Cyf.), Swyddfa'r "Genedl."

THE LIBRARY OF THE
MAR 25 1930
UNIVERSITY OF ILLINOIS

891.661
J716c

. . Cynwysiad. . .

	Tud.
Rhagdraeth	vii.—xv.
Caneuon:—	
"Codiad yr Hedydd"	9
Cwymp Caradog	10
Rhyfelgyrch Gwyr Harlech	11
"Merch Megan"	12
Peidiwch a dweyd wrth fy Nghariad	13
"Y Bardd yn ei Awen"	14
"Codiad yr Haul"	15
Hymn i Dduwies Rhyddid	16
Y Gwlithyn	17
Pictiwr fy Mam	18
Y Ddeilen ar yr Afon	19
Y Dymuniad	20
"Difyrwch Arglwyddes Owen"	21
Gwalia Anwyl	22
"Difyrwch y Brenin"	23
Gwraig y Morwr	24
Y Tylwyth Teg	25
Plygeingan	26
Gwraig y Milwr	27
Serch Hudol	28
Perl fy Nwyfron	29
Tros y Garreg	30
Ymadawiad y Brenin	31
Hela'r 'Sgyfarnog	32
Ein Hanwyl Wlad Folianwn	33
Molawd Mai	34
Castell Caerphili	35
Merch Megan	36
"Llwyn Onn"	37
Telyn Cymru	38
Eilionwy	39
Purdeb	40
Gelert	41
Fy Hoff, Lwys Wlad	43
Boed Ysbryd ein Cyndadau	44
Bad-Gan	45

720667

	Tud.
Dyffryn Clwyd	46
Kathleen f'Anwylyd	47
Chwareuwch eich Telynau	48
Y Ferch Siomedig	49
Gweno	50
Yr Ehedydd	51
Castellawg Greigiau Drachenffels	52
Iawn a Grym	54
Mis Mai	56
Ar Hyd y Nos	57
Hiraeth-Gân	58
Cwymp Llewelyn	61
Gogoniant i Gymru	62
All Hail to Thee, Cambria	63
Cân i'r Aderyn	64
Yr Eos Unig	65
Y Bwthyn Gwyn-galchog	66
The White-washed Cottage	67
Canig	68
Molawd Cymru	69
Cân Gwylan y Môr	71
Gwlad y Telynor a'r Bardd	72
Emyn	73
Carol Nadolig	75
Hywel a Gweno	77
Dafydd y Garreg Wen	78
Dameg y Ddraenen	79
Yr Awen a'r Afon	83
Dydd a Nos	85
Gweno Fwyn Gu	87
Seren y Wawr	89
Y Gadlys	90
Ffarwel y Telynor	91
Cymru Lân	92
Toriad y Dydd	93
Cymer Ofal	94
"Plygiad y Bedol"	95
Dy'gwyl Dewi	96
Gruffydd ab Cynan	98
Mentra Gwen	99
Ffarwel i Gymru	100
I'r Awen	101
Gweddi Poland	102
Emyn	104

. . Talhaiarn. . .

Ganed, 1810.—Bu farw, 1869.

Mae'r alaw a gerir yn bleser di ail,
Mor beraidd a rhosyn a gwlith ar ei ddail,
Neu anthem aderyn, a gwynfyd ei gŵyn
Wrth wahodd anwylyd ei fynwes i'r llwyn:
Ond gwywo wna rhosyn er teced ei wawr,
Gwasgerir ei dlysni, difrodir ei sawr:
A marw wna 'deryn, a gadael ei nyth,—
Ond miwsig y galon a bery am byth.

YMAE tri-deg a thri o hafau wedi ymwneled â Dyffryn Clwyd er pan gefnodd Talhaiarn ar fyd y gofidiau, gan adael ei delyn a'i gân yn waddol i'w genedl a i wlad. Bellach, y mae oes arall wedi codi yr hon nid adwaenai Dalhaiarn, a beirdd eraill a gwahanol wedi dod i ffurfafen llenyddiaeth Cymru. Hwyrach mai ein perygl heddyw ydyw anghofio y beirdd a fu, yn ein hawydd i ddilyn camrau, neu yn hytrach ehediadau y bardd newydd a diweddar. Credwn mai un rheswm am yr anghof hwn yn nghlyn â Thalhaiarn ydyw y ffaith fod ei ganeuon—pethau goreu ei awen—wedi eu claddu o'r golwg mewn gwahanol gyfrolau sydd, bellach, allan o "breint," ac yn hynod o anhawdd

eu cael. Cyhoeddwyd y rhain gan yr awdwr ar wahanol adegau. Argraffwyd un yn Llundain yn 1855, ac ail gyfrol yn yr un swyddfa yn 1862. Daeth trydedd gyfrol allan yn 1869 wedi ei hargraffu yn swyddfa Gwilym Cowlyd, Llanrwst. Y mae'r copi sydd o'n blaen yn awr o'r gyfrol ddiweddaf hon yn cynwys y cyflwyniad a ganlyn ar y wyneb ddalen:

Llew Llwyfo

Gyda chofion caredicaf

TALHAIARN.

Awst 30, 1869.

Ac yn y flwyddyn hono y bu farw yr awdwr. Nid oes a fynom, yn y rhagdraeth hwn, a hanes personol y bardd, namyn iddo weled llawer tro ar fyd, megys eraill o'i frodyr yn y gerdd. Treuliodd ran fawr o'i oes yn Lloegr, ac yn Ffrainc, ond ehedai ei hiraeth yn fynych i Ddyffryn Clwyd, ac i bentref tawel, gwledig Llanfair Talhaiarn,—

Pe cawn adenydd clomen deg
Chwim hedeg yno wnawn,
Dros fryn a dyffryn, dol a gwaen,
Ymlaen, ymlaen yr awn:
Nes imi fynd i'r dyffryn glŵys
Heb orffwys ar fy hynt,
Ond hedeg wnawn i'r hyfryd fan
Yn fuan fel y gwynt:
Fy nghalon dirion lam o hyd
I'r dyffryn clyd lle'm ganwyd i;
Anghofier fi gan bawb drwy'r byd
Os byth anghofiaf di.

Ac er yn alltud o Gymru, yr oedd ei llên a'i llwydd yn agos at ei galon. Ysgrifenodd lawer i'r wasg, yn Gymraeg a Saesneg, ar feirdd a barddoniaeth, a helyntion Eisteddfodol. Yr oedd, hefyd, yn arweinydd poblogaidd yn uchelwyliau llenyddol ei genedl, yn areithydd penigamp yn y ddwy iaith, ac yn frwd ei awydd, gartref ac oddicartref, i godi'r hen wlad yn ei hol. Y mae Eben Fardd wedi gwneyd braslun geiriol o Dalhaiarn yn ei gywydd annerch, ac mewn cyfeiriad at ei ymweliad a Chlynnog yn Mehefin, 1852,—gwyl y cymmod rhwng y ddeufardd gwiw ar ol yr anghaffael yn Eisteddfod y 'Berffro. Dyma ran o'r desgrifiad, a dywed y cyfarwydd fod pob llinell yn darnodi dynsawd Talhaiarn,—

> Gwelwn wr o bryd glan iawn
> Digystudd—dwyrudd diriawn,
> A thro olwyn athrylith
> Yn ei lygaid, nid rhaid rhith:
> A'i wallt trwm yn hollt yr iâd
> O wawr wineu yn ei raniad:
> Wrth y drych ar ei berth drom
> Pwy yw? sylwid, Ap Salmon?
> Ei farf laes a fwriai flew
> I'w eofndal fron lyfndew:
> A'i osodiad fel sawdwr
> Oll yn ddel a lluniaidd wr:
> Talgryf a heinyf hynod,—
> Ni wyddwn i ei wedd nod.*

Dengys yr amryfal gyfrolau a gyhoeddodd fod ysgrifell Talhaiarn yn ddiwyd a diorphwys. Am ansawdd cyffredinol ei gynyrchion, mewn rhyddiaeth a barddas, nid oes neb wedi dweyd gwell gwir nac efe ei hun, yn ei ragymadrodd i'r ail gyfrol. Cyd-

---

* *Tlysau Beuno*, gan Hywel Tudur, tudalen 91.

mara ei gyfansoddiadau i wehelyth neillduol o bytatŵ,—"rhai yn dda, rhai yn ddrwg, a rhai yn symol." Dichon y gellid dweyd yr un peth i raddau am waith pob awdwr, ond y mae'n eglur fod Talhaiarn yn deall ei hun, a hwyrach yn deall y natur ddynol, gan mai "nid da rhy o ddim." Ond yn sicr ddiameu, ni welwyd y fath gymysgfa farddonol erioed! Y mae pob cyfrol fel llenllian Pedr, neu y rhwyd y sonir am dani yn y ddameg, oedd yn cynwys "pob rhyw beth." Dyna awdl "Y Greadigaeth," yr hon a gyfanwyd wedi ei dryllio yn ddarnau yn y 'Berffro: a chyfieithiad penigamp o "Tam o Shanter" Robert Burns. Wedi hynny ceir "Cantodau" meithion yn rhoddi ymfflamychion Tal a'r awen ar fynydd Bodran; rhan helaeth ohonynt wedi eu gwau ar fesur Byron, ac yn rhoddi hanes ac ymddiddanion "Modryb Modlan," yr hon oedd berthynas agos, gellid meddwl, i "Modryb Sian." Yn y dosbarth "symol" y rhaid gosod llawer o'r pethau hyn o'i eiddo, er fod yr oll yn eithaf diniwed, ac yn llawn donioldeb difalais a digenfigen. Ond y mae ei lythyrau a'i "feirniadaeth" ar lên ei wlad yn esgyn i ddosbarth uwch. Adwaenai geinder mewn meddwl ac iaith. Yn ei sylwadau ar Dafydd ab Gwilym,—"fy meistr," fel y geilw ef, y mae yn dyfynu yr un cwpledau braidd yn hollol ag a wna yr athraw W. Lewis Jones, mewn darlith ar y "Celt a Barddoniaeth Natur." Dengys hyn fod Talhaiarn, yn 1855, yn gwybod beth oedd yn gain yn ngwaith meistriaid y gerdd. Yn yr un llythyr y mae'n gofyn yr hen gwestiwn,—Pa beth yw Barddoniaeth? ac y mae yr ateb a ddyry efe i'r holiad yn fantais ini wybod beth oedd ei syniad ef ei hun ar y pwnc. "Meddyliau ar dân," medd

un: "gwirionedd wedi ei ysbrydoli gan deimlad," medd un arall: meddyliau tlysion mewn iaith alawaidd, neu feddylddrychau godidog mewn iaith arddorchog, meddaf finnau: apeliad uniongyrchol at y galon: gwefrdan i gynhyrfu'r enaid: gardd flodeuog i swyno y llygaid: melus saig i'r gwefusau: hudlewyrch a grasusbeth i ddenu'r serchiadau: doethineb wedi ei gwisgo a sidanau. Dyna beth yw Barddoniaeth. Ac hefyd, paentio pictiwrs byw efo geiriau disglaer, mal y bydd yr arlunydd yn paentio efo lliwiau,—pob rhan yn drwsiadus, cywrain, a chelfyddbwyll. . . . Y mae eisiau sylwedd, ystwythder, pereidd-dra a miwsig mewn barddoniaeth—enaid yn mhob meddylrith, a disglaerdeb yn mhob llinell. . . . Nid dweyd yr holl gwbl a ellir ddweyd ar y testyn, ond y pethau goreu yn yr iaith dlysaf."

Dyna gyffes ffydd Talhaiarn ar y pwnc ollbwysig i fardd. A lwyddodd efe i gyrhaedd ei safon? *Hitch your waggon to a star*, ebai Emerson, ond y gamp ydyw—gwneyd! taflu pen y llinyn am wddw'r seren ddysglaer bell! "Gwefrdan i gynhyrfu'r enaid;" ond sut i gael gafael yn y gwefr? "Doethineb wedi ei gwsigo a sidanau." Digon gwir: doethineb sy'n haeddu y sidan a'r porffor, ond y mae'n haws cael y sidan na dod o hyd i drigle doethineb! Sylwer, hefyd, ar yr elfen arall a nodir,—"nid dweyd y cwbl a ellir ei ddweyd, ond y pethau goreu." Mae gwir farddoniaeth yn awgrymu mwy nag a ddywed yn uniongyrchol, a gellir mynegi am yr awen, fod ei *hattal*-dwedyd, hithau, yn "gyfrwng o hyawdledd cu." "Y mae eisiau sylwedd, ystwythder, pereidd-dra, a miwsig

mewn Barddoniaeth." A lwyddodd Talhaiarn, meddwn, i gyrhaedd y nod, ac i lanw ei ddeffiniad ei hun? Ai ynte dyheuad ydoedd,—gweledigaeth bell?

> The desire of the moth for the star,
> Of the night for the morrow.

Credwn iddo lwyddo yn ganmoladwy, mewn un dosbarth,—un adran o'i farddoniaeth. Nid yn ei awdlau, nid yn ei gywyddau, nid yn ei efelychion o waith Burns a Bèranger, nid yn ei gantodau Byronaidd eu hysbryd a'u harddull, ond yn ei GANEUON. Dichon nas gellir honi am yr oll o'r rhain, eu bod yn cynwys "doethineb wedi ei gwisgo a sidanau," ond y mae aml un o honynt yn "ardd flodeuog i swyno y llygaid" ac yn llawn o "feddyliau tlysion mewn iaith alawaidd," "ac yn meddu tri o hanfodion cerdd,—ystwythder, pereidd-dra, a miwsig."

Yn ei lyfr gwerthfawr, mirain, ar "Athrylith Ceiriog" y mae Elfed yn dadleu mai awdwr "Alun Mabon" oedd tad, neu gychwynydd y cyfnod telynegol yn marddoniaeth Cymru. Prin a thlodaidd oedd "caneuon" ein gwlad cyn ei ddyddiau ef. Ond tra yn rhoddi y lle mwyaf anrhydeddus i gynyrchion awen Ceiriog, yr ydym yn credu fod Talhaiarn yn haeddu eisteddle yn rhywle yn ei ymyl fel bardd y delyneg, ac awdwr cerdd. Nid oes ond un frawddeg yn y llyfr beirniadol a nodwyd yn son am Talhaiarn, a'r oll a ddywedir yn hono ydyw ei fod yn hollol gydnabyddus â chaneuon Bèranger, y bardd Ffrengig. Hawdd credu hynny am dano. Gwyddai am Bèranger, fel y gwyddai Ceiriog am

Burns. Ond nid adlun o Bèranger oedd Talhaiarn. Y mae ei ganeuon goreu yn dwyn delw Dyffryn Clwyd, mor wirioneddol ag yr oedd eiddo ei awen-frawd ieuengach yn dwyn delw y Berwyn a Dyffryn Ceiriog.

Mewn nodiad ar Talhaiarn, yn y gyfrol a elwir "Caniadau Cymru," ysgrifena'r detholydd, yr Athraw W. Lewis Jones, fel y canlyn:—"Y mae llawer iawn o brydferthwch a chywreinrwydd yn nghaneuon goreu Talhaiarn, ac yn y gwaith o gyfansoddi geiriau ar gyfer alawon Cymreig nid yw hyd yn oed Ceiriog yn feistr arno." I weled grym y feirniadaeth hon, yr hyn sydd yn eisiau ydyw cyfleustra teg i adnabod Talhaiarn yn ngoleuni ei waith—ei "ganeuon goreu." Nid yr amcan, fel y sylwyd, ydyw tynu un iod nac un tipyn oddiwrth ogoniant Ceiriog. Y mae hynny allan o'r cwestiwn. Ac yr oedd Talhaiarn ei hun, yn mysg y rhai blaenaf i gydnabod athrylith awenyddol y bardd oedd yn esgyn i ffurfafen cân, pan oedd efe yn llithro tua'r gorwel. Llawenychai yn ei oleuni, ac ysgrifenodd adolygiad oedd yn dangos ei edmygedd o awdwr "Oriau'r Hwyr." Na, nid oes angen gosod y naill fardd ar gyfer y llall i fesur eu taldra awdurol: ond y mae yn iawn i Gymry darllengar y ganrif newydd ddeall fod caneuon goreu Talhaiarn yn hafal i'r eiddo Ceiriog mewn brydferthwch a chywreinrwydd. Ac yn enwedig ei ganeuon ar hen alawon Cymru. Yn y rhain, yn ddiameu, ceir ei "bethau goreu yn yr iaith dlysaf." Darllener ei eiriau ar y "Deryn Pur," "Codiad yr Hedydd," "Llwyn Onn," "Merch Megan," "Tros y Garreg," &c., onid ydynt yn gyforiog o felodi, â swyn? Onid

yw y bardd wedi cael gafael ar wir ysbrydiaeth yr hen alaw ryfelgar "Gwyr Harlech?"

Harlech, cyfod dy faneri,—
Gwel y gelyn—ennyn ynni
Y Meirionwys oll i waeddi,
Cymru fo am byth:
Aed y waedd ac aed y weddi
I bob cwr o'n gwlad uchelfri,
Nes adseinia yr Eryri,
Cymru fo am byth.

Mor iachus, mor ogoneddus yw y weledigaeth sydd ganddo ar yr alaw fwyn—"Y Bardd yn ei Awen:"—

Di fraw y daw y dydd
Pan fydd cenhedloedd byd yn rhydd,
Yn ddedwydd ac yn dda:
Clöir cledd; a Hedd o hyd
A gwynfyd cariad yn ei bryd
Yn bur o hyd barhâ:
Tyrr holl gadwynau dur
Sy'n llyffetheirio dynolryw,
A'r byd a dry i drefn,
Fel llong yn nofio afon lefn
A Rhyddid wrth y llyw!

Onid têg y drychfeddwl? Onid llafarbêr yr iaith? A oes rhywbeth tlysach yn marddas ein gwlad na'r hyn a welodd y bardd,—

A'r byd a dry i drefn
Fel llong yn nofio afon lefn
A Rhyddid wrth y llyw!

Yn sicr, ni ddylai barddoniaeth fel hyn gael ei chadw yn nhir anghof. Y mae'n haeddu cael ei darllen, ei dysgu, a'i mawrhau.

Estyn y fantais yna i ddarllenwyr Cymru ydyw amcan y detholiad hwn o ganeuon y gwr oedd yn meddu y ddawn delynegol, yn berchen yr awen wir, ac yn medru gwisgo meddyliau tlysion mewn iaith alawaidd, cyn felused a diliau'r delyn, a chyn loywed a dwfr y nant. A thra yn canu ar dannau gwladgarwch Cymru; ei gorphenol rhamantus, a'i dyfodol goleuwawr, gellir dweyd iddo gael y dymuniad a geisiai gan y "Deryn Pur,"—

O! dyro i mi, aderyn mwyn,
Dy gân o'r llwyn im' llonni,
Diniwed yw dy galon lân
Dy anian yw daioni.

ANTHROPOS.

Caernarfon, Awst, 1902.

Cerddi Cymru.

CERDDI Cymru sydd yn byw
Trwy'r blynyddau yn ein clyw:
Sibrwd ein halawon gynt
Mae cwynfanau trwm y gwynt:
Dwyn yn ol lais mam a thad,
Mae hen dônau pur ein gwlad:
. . . . .

Ac mae clust y Cymro'n gwneyd
I'r gre'digaeth oll eu dweyd.

CEIRIOG.

Caneuon Talhaiarn.

"Codiad yr Hedydd."

CWYD, cwyd, ehedydd llon,
O'th ddedwydd nyth ar ael y fron,
I ganu yn y nen:
Mwyn, mwyn y tônau mêl
O'th beraidd big a'th galon ddêl
I synnu'r byd uwch ben:
Pawb a hoffant swyn dy gân,
Sy 'n llifo 'n ffrwd o fwsig ffri:
Nwyfus fawl dy galon lân
Ennyna dân fy awen i;
Anwylaf wyt o'r adar mân,
Boed bendith Duw i ti.

Llon, llon yw 'r ddaear lawr,
Mae 'r haul yn gwenu ar y wawr
Yng ngwrid y dwyrain dêr:
Dring, dring ehedydd mwyn,
Dyhidla odlau llawn o swyn
O groesaw i dy Nêr:

Cân yn Eden, yn dy gryd,
A roist i'r greadigaeth hardd :
Iddi 'n awr o bryd i bryd
Alawaidd dôn o'th big a dardd ;
A chanu wnei o hyd o hyd
Tra haul, a byd, a bardd.

Cwymp Caradog.

Tôn—"Morfa Rhuddlan."

CWYMPODD Caradog, dyrysodd ei fyddin,
Cwympodd blaenoriaid a dewrion y gâd ;
Gwynedd lesmeiriodd pan gollodd ei Brenhin,
Cwmmwl o dristwch a huliodd y wlad :
Rhelyw anffodus y rhengau wrth gilio
'Sgubwyd gan angau i grombil y don ;
Duodd y cwmmwl, a thorrodd i wylo,
Congcwest y gelyn a ysodd bob bron.

Gwae i mi weled y gelyn buddugol,
Rhwysg a gorfoledd yn llonni ei bryd ;
Llethir fy monwes gan loesau angeuol,
Gwell i mi farw na byw yn y byd :
Eilia fy nhelyn leddf dôn i'r gyflafan,
Collwyd ein breintiau, ein rhyddid, a'n hedd ;
Todded fy nghalon i gwyn "Morfa Rhuddlan,"
Cuddier fy nghofid yn nyfnder y bedd.

Rhyfelgyrch Gwyr Harlech.

"The March of the Men of Harlech."

HARLECH, cyfod dy faneri,—
Gwêl y gelyn—ennyn ynni
Y Meirionwŷs oll i waeddi,
Cymru fo am byth :
Aed y waedd ac aed y weddi
I bob cwrr o'n gwlad uchelfri,
Nes adseinia yr Eryri,
Cymru fo am byth :
Arwŷr, sawdwŷr, sydyn
Rhuthrwn ar y gelyn,
Gyrrwn ef i ffoi o nant,
A bryn, a phant, a dyffryn ;
Chwyfiwn faner goruchafiaeth,
Gorfoleddwn yn ei alaeth ;
Clywir llef ein buddugoliaeth,
Cymru fo am byth.

Gwaed sy 'n gwrido y cleddyfau,
Twrw mawr a thingcian arfau ;
Uwch na 'r twrw ceir bonllefau,
Cymru fo am byth :
Saethau a phiccellau wibiant,
Cyrn udganant—meirch weryrant—
Milwyr ruthrant—rhengau floeddiant,
Cymru fo am byth :

Tanbaid yw calonnau,
Grymmus ydyw breichiau
Gwŷr yn ymladd dros eu gwlad,
Orenwog wlad eu tadau—
Gwyllt a ffyrnig yw 'r ymladdfa—
Gwangcus yw y cledd wrth wledda—
Duwies buddugoliaeth floeddia,
Cymru fo am byth.

"Merch Megan."

YSPLENYDD yw 'r haul wrth euro y wawrddydd,
A glandeg yw gwlith ar feillion a rhôs;
Tryloyw yw rhith y lloer mewn afonydd,
A disglaer yw 'r ser yn nyfnder y nos;
Disgleirfwyn yw'r hafddydd, ei geinion yn burlan,
A disglaer yw llewyrch yr awyr a'r lli;
Disgleiriach i'm serch yw Elsbeth merch Megan,—
Anwylach ei phryd na mywyd i mi.

Mae Elsbeth yn lân, a'i gwên fel yr heulwen,
Ei chalon yn bur, a dedwydd ei bron;
Mae miwsig ei llais yn fywyd i f' awen,
Mae cariad yn byw 'n ei llygaid glâs llon:
Mae mwynder a rhinwedd yn puro ei dwyfron,
A glendid a gwylder yn gloywi ei phryd;
Mi garaf ei llun tra cura fy nghalon,
Mi garaf fy mun tra b'wyf yn y byd.

Peidiwch a dweyd wrth fy Nghariad.

PAHAM y mae pleser a phoen dan fy ais?
Paham mae fy nghalon yn curo?
Pan welaf fy nghariad, pan glywaf ei lais,
Paham bydd fy ngwyneb yn gwrido?
Hei ho! mae nghalon a ngho',
Yn orlawn o swynion pêr syniad;
Ond peidiwch a d'wedyd fy secret i neb—
O! peidiwch a dweyd wrth fy nghariad.

Mae cariad yn rhuddo a gwelwi fy ngwedd—
Ow resyn na chawn i brïodi;
Mae cariad yn gymmysg o bryder a hedd,
Mae cariad yn gyfoeth mewn tlodi:
Hei ho! mae nghalon a ngho',
Yn orlawn o swynion pêr syniad;
Ond peidiwch a d'wedyd fy secret i neb—
O! peidiwch a dweyd wrth fy nghariad.

Mae mysedd yn d'rysu yr hosan o hyd,
A'r hosan yn d'rysu fy meddwl,
A'm meddwl yn d'rysu pob peth yn y byd—
Waeth imi gyfaddef y cwbwl:
Hei ho! mae nghalon a ngho',
Yn d'rysu o swynion pêr syniad;
Fydd rhywun mor hynaws a d'wedyd wrth Tom,
Rhag ofn i mi farw o gariad?

"Y Bardd yn ei Awen."

"The Inspired Bard."

DI fraw y daw y dydd,
Pan fydd cenhedloedd byd yn rhydd,
Yn ddedwydd ac yn dda:
Cloir cledd; a Hedd o hyd,
A gwynfyd cariad yn ei bryd,
Yn bur o hyd barhâ;
Tyrr holl gadwynau dur,
Sy 'n llyffetheirio dynolryw,
A'r byd a dry i drefn,
Fel llong yn nofio afon lefn,
A Rhyddid wrth y llyw.

Daw Iawn â'i gyfiawn gâd,
I ymlid llid a brâd o'r wlad—
Ni âd un gelyn gwael:
Ceir lles a geiriau llon,
A brawd wrth frawd yn frawd o fron,
A chalon hylon hael:
Beirdd heirdd a wiriant hawl
I daenu mawl o dannau mân—
Draw, draw â rhyfel drud—
Pur dduwies Rhyddid lân ei phryd
Dry 'r byd i gyd yn gân.

"Codiad yr Haul."

"The Rising of the Sun."

HAUL gwych, enaid y gwawl,
Mil a myrdd a ganant dy fawl;
O'r dwyrain doi yn deyrn o fri,
A gwyllt a gwâr a'th garant di:
Cain Bôr! plenyd a sêr,
Seirian lu, addefant eu Ner;
Glyw glew, gloyw, a glân,
Môr a thir, yr awyr a thân;
Anian chwardd yng ngwên dy wawr—
Ysplenydd wyt, O! nefol gawr.

Mawr Fod hynod o hardd,
Mae dy wên fel awen y Bardd,
Yn rhoi syniadau pêr i'r byd,
A gogoneddus yw dy bryd:
Llon wyt, Frenhin y dydd,
Yn y nef yn rhodio yn rhydd,
Ar daith ëang a maith,
Diflin a thrag'wyddol dy waith:
Anian chwardd yng ngwên dy wawr—
Ysplenydd wyt, O! nefol gawr.

Hymn i Dduwies Rhyddid.

O! FENDIGEDIG fun,
Merch henaf Duw ei hun,
Addolir di:
Cyn creu haul a'r rhod,
Yr oeddit ti yn bod—
Anfarwol yw dy glod,
A'th fraint a'th fri.

Gorhoffus yw dy bryd
Gan holl drigolion byd,
Yn fawr a mân:
Dy wên a lawenhâ
Holl ddynion doethion da;
Athrylith a'th fawrhâ
Mewn cerdd a chân.

Archangel daear lawr,
Ar esgyll cain y Wawr,
Tyr'd attom ni:
Tydi wyt enaid gwlad,
A thrugaroccaf râd
Yr Arglwydd Dduw ein Tad;
Mawrygwn di.

Boed iti ar bob pryd,
Dywynnu ar y byd,
Nes bo yn rhydd:
Tywynna ym mhob man,
Dros fôr a mynydd ban,
Nes troi, mewn tref a llan,
Y nos yn ddydd.

O! Ryddid, dduwies dda,
Pob *dyn* ymlawenhâ
Yng ngwawl dy wedd:
Trywana Ormes drwg,
A chwâl ef fel y mwg,
A gyrr ef gyd â gwg
O'r byd i'r bedd.

Y Gwlithyn.

PUR yw gwlithyn ar y rhosyn,
Anwyl yw ei lun a'i liw,
Pan fo gwên y wawr yn euro
Glyn a dôl a bryn a rhiw:
Byr ei amser i belydru
Ar y rhosyn teg ei lun,
Fel y deigryn fo'n disgleirio
Yn y gwrid ar ruddiau mun:
Ymaith hêd y gwlithyn hardd,
Ond y rhosyn
Erys wedyn
I gysuro bron y bardd.

Pictiwr fy Mam.

MAE 'r haul yn siriol wenu
Ar ddyffryn, dôl a glyn,
Ac anian yn llawenu
Ar fynydd, pant, a bryn;
A minnau 'n synfyfyrio 'n brudd, yn oíni gofyn, pa'm
Na chaf fi glywed peraidd lais fy anwyl, anwyl fam;
Dywedwch imi, f' anwyl fam, ai gaf eich gweled chwi?
O! distaw yw y pictiwr mud sy 'n gwenu arnaf fi.

Mae f'enaid yn sychedu
Am wel'd eich hawddgar wedd;
Ni fyn fy nghalon gredu
Eich bod chwi yn y bedd;
A hiraeth sydd i mi bob dydd, am glywed hudol swyn
Y miwsig lifai gyda serch yn fêl o'ch calon fwyn;
Dywedwch imi, f' anwyl fam, ai gaf eich gweled chwi?
O! distaw yw y pictiwr mud sy 'n gwenu arnaf fi.

Teimladau a ddeffroant,
A chwyddant dan fy mron;
Yn fynych iawn cyffroant
Wrth gofio 'ch gwenau llon;

Mae deigryn cyssegredig serch yn crynu ar fy ngrudd,
A gobaith bron a soddi 'n llwyr tu mewn i'm monwes brudd;
Dywedwch imi, f' anwyl fam, ai gaf eich gweled chwi?
O! distaw yw y pictiwr mud sy 'n gwenu arnaf fi.

Y Ddeilen ar yr Afon.

MI welais ddeilen felen ar wyneb afon lefn,
Heb allu nac ewyllys, yn myn'd yn wael ei threfn
I eigion ebargofiant, a myrdd i'w dilyn hi;
Ac felly yr un ffunud y cyd-ymdeithiwn ni:
Er pryder a gofalon, nid yw ein heinioes ni
Ond deilen ar yr afon yn dilyn cwrs y lli'.

Y llengcyn ieuangc nwyfus, sy 'n awr yn hardd ei wedd,
A'r eneth lân a hoenus, ymdeithiant tua 'r bedd;
Maent heddyw 'n wych mewn iechyd—yfory 'n wan dan glwy',
A threnydd yn y beddrod—ni welir mo'nynt mwy:
Er pryder a gofalon, nid yw ein heinioes ni
Ond deilen ar yr afon yn dilyn cwrs y lli'.

Y Dymuniad.

Tôn Ffrangcaeg—*Ma Normandie.*

PAN ffy y gauaf oer a blin
I ddilyn hynt ei 'stormus gerdd;
Pan ddaw yr haf a thesog hin
I lonni gwedd y ddaear werdd,
A thrydar adar yn y llwyn,
A'r haul i wenu ar y lli',
Dymunwn fod yn Llanfair fwyn;
O! dyna 'r fan i lonni 'm calon i.

Trafaeliais i drwy lawer sir,
A gwelais aml dro ar fyd;
A bum yn byw mewn estron dir,
Dolurus oedd fy mron o hyd:
Hiraethu byddwn ym mhob man
Am wel'd y llan ar fin y lli';
Fy anwyl enedigol lan—
O! dyna 'r fan lle mae fy nghalon i.

Yn fuan iawn y daw y dydd
Pan fydd fy awen fwyn yn fud,
A minnau 'n hen, a llwyd a phrudd,
Heb obaith cysur yn y byd:
O! na chawn ddiwedd oes mewn hedd,
Mewn bwthyn bach wrth fin y lli';
A phan ddaw angau llym ei gledd,
Cael marw yno yw nymuniad i.

"Difyrwch Arglwyddes Owen."

Lady Owen's Delight.

GORHOFFEDD fy nghalon yw clywed y dôn
A'm swynodd pan oeddwn yn blentyn ym Môn;
Mi ddysgais ei charu heb wybod paham,
Hi 'm süodd i gysgu ym monwes fy mam:
Yn nyddiau fy nwyfiant cysurodd fy mron,
Difyrwch a chysur fy henaint yw hon;
Pob teimlad a gyffry, a deffry y dôn
Adgofiant dedwyddyd fy mebyd ym Môn.

Mae 'r alaw a gerir yn bleser di ail,
Mor beraidd a rhosyn a gwlith ar ei ddail,
Neu anthem aderyn, a gwynfyd ei gwyn,
Wrth wahodd anwylyd ei fonwes i'r llwyn:
Ond gwywo wna rhosyn er tecced ei wawr,
Gwasgerir ei dlysni, difrodir ei sawr;
A marw wna 'deryn, a gadael ei nyth,—
Ond miwsig y galon a bery am byth.

Gwalia Anwyl.

The Inspired Bard.

DEUED pawb yn ddiwahan,
I roi gogoniant gwych ar gân,
O hyd i Walia hardd:
Uned calon, llais, a thant,
I ganmol ei gwladgarol blant,
Yn beraidd efo 'r Bardd:
Fel y ser o seirian fri,
A lynant yn y nefoedd fâd;
Felly mae 'n calonnau ni
Yn glynu yn ein gwlad.

Gwalia anwyl, deffro, cwyd,—
Anwylyd nef a daear wyd,
A bendith Naf i ni:
Tra bo haul a lloer uwch ben,
A ser yn ddisglaer yn y nen,
Yn daer y cerir di:
Fel y ser o seirian fri,
A lynant yn y nefoedd fâd;
Felly mae 'n calonnau ni
Yn glynu yn ein gwlad.

"Difyrwch y Brenin."

The King's Joy.

DEUED y Telynor llon
I ymlid gofal o bob bron;
Caned gyd â llais a thant,
Nes deffry adsain bryn a nant:
Mae ein Brenin doeth ei fryd,
Y Brenin goreu yn y byd,
Yn dymuno mwyniant mâd
I bawb o'i ddeiliaid drwy 'r holl wlad.

Deued pawb i'r uchel wledd,
Lle nad oes gwaewffon na chledd
I gynhyrfu digter gwŷn,
Ond hedd a chroesaw i bob dyn:
Teyrn yw ef o ddêngar ddawn,
I'n gwneud ni oll yn ddedwydd iawn;
Ninnau floeddiwn tra bo chwyth,
Byw fyddo 'n Brenin mwyn am byth.

Gwraig y Morwr.

Difyrwch Arglwyddes Owen.

'ROEDD mam yn cofleidio ei baban bach glân,
Yn isel ac ofnus yn ymyl y tân;
O! cysga, fy mhlentyn! O! huna, medd hi,
Mae 'th dad yn morwrio ar wyneb y lli';
Mae storm yn cynhyrfu yr awyr a'r dòn,
A minnau 'n bruddglwyfus ac ysig fy mron—
O! Dad trugaroccaf, dod nodded yn awr
I bawb sydd yn hwylio ar gefn y môr mawr.

Mae 'r storm wrth gynnyddu 'n chwibanu uwch ben,
A'r fam brudd yn codi ei golwg i'r nen;
Gweddïa, cofleidia ei bachgen bach tlws—
Ac wele y Capten yn dyfod drwy 'r drws;
Cusana ei blentyn a'i wraig yr un pryd,
Gan ddweyd,—O hyn allan cawn hawddfyd o hyd;
Mae gennyf ddigonedd o gyfoeth i dri—
Fy ngwraig, a fy mhlentyn, a'm cartref i mi.

Y Tylwyth Teg.

AWN i'r goedfron at y ffynnon,
Lle mae dyfroedd gloyw glân;
Yno gyd â mwyn awelon
Tylwyth teg a eiliant gân:
Gyd â llaw mewn llaw yn llawen,
Dawnsio wnant ar hyd y nos,
Pan fo ser yn hulio 'r wybren
I gysuro 'r lleuad dlos.

Yn y fodrwy werdd y dawnsiant,
Gyd â gwênau hoffus iawn;
Difyr fodau yn eu mwyniant,
Ysgafn ydynt fel y gwawn:
Telaid yw eu môsiwn gweisgi,
Prin cyffyrddant ddaear lawr —
Fel y gloywon ser uchelfri,
Ymddiflannant gyd â'r wawr.

Maent yn rhydd oddiwrth ofalon,
Helbul, gofid, poen, a chlwy';
Ingau, loesau, a threialon,
Ni chyrhaeddant atynt hwy:
Prydferth ydynt fel angylion,
Hyfryd yw eu chwareu chweg:
O! annedwydd ddaearolion,
Dysgwch fod fel Tylwyth Teg.

Plygeingan.

Tôn—"Llanover."

PAN fo 'r boreu glâs yn gwawrio,
Canaf bennill i fy mun;
Gwylied undyn byw ei deffro,
Mwyn a melus yw ei hun:
Yn ei chwsg y mae 'n breuddwydio
Bod hi 'n rhodio gyda mi,
Lle mae rhosys yn blodeuo
Ger y Llan ar fin y lli.

Diniweidrwydd yw ei tharian,
Purdeb cariad yw ei bri;
Mwynach yw nag aur ac arian
I fy nghalon serchlon i:
Er ei bod yn awr yn huno,
Hêd ei ffansi attaf fi;
Tra bo nghalon innau 'n curo,
Hêd fy nghariad atti hi.

Gwraig y Milwr.

DOLURUS fy nghalon, a gwelw fy mhryd,
P'le 'r wyt ti, f' anwylyd, yn aros cyhŷd?
Mae 'r plant yn dy ddisgwyl bob munud o'r dydd,
A minnau 'n bryderus, a'm meddwl yn brudd:
O! tyred yn ol,
O! tyred yn ol;
Pe gwyddwn lle 'r ydwyt, ehedwn i'th 'nol.

Yr oeddit bob amser yn llariaidd a llon,
Mae hiraeth am danat yn ysu fy mron;
O! tyr'd i dy fwthyn yng nghysgod y Nant,
I lonni calonnau dy wraig a dy blant:
O! tyred yn ol,
O! tyred yn ol;
Pe gwyddwn lle 'r ydwyt, ehedwn i'th 'nol.

Mae Rhyfel yn difa cenhedloedd y byd,
Mae Rhyfel yn ffyrnig, a fflamgoch ei bryd,
Yn mathru y gweiniaid a'r cedyrn dan draed,
Mewn gloddest a bloddest yn meddwi ar waed:
O! boed ini hedd,
O! boed ini hedd;
Terfyner y rhyfel a gweinier y cledd!

Serch Hudol.

TEG yw dy lun, fy anwyl fun,
Swynol wyt i ennyn gwŷn
A serch fy nghalon i:
Mae tynfaen yn dy siriol bry'
I'm denu attat ti o hyd;
Er gwaethaf gwg a gwawd y byd,
Fy nghariad ydwyt ti:
O! fy ngeneth wiw,
Pe bawn yn rhosyn teg ei liw,
Cawn nythu yn dy fron heb friw
I'th galon dirion di;
Ac yno 'n llawn o hoen a hedd
Addolwn wawr dy dden-gar wedd,
A mil melusach fyddai 'r wledd
Na gwin a medd i mi.

O! clyw fy nghân, fy lili lân,
Gresyn ini fyw 'n wahân—
Y Fwynlan, cymmer fi:
Pe bawn yn frenhin ar y byd,
Ei aur a'i stôr o drysor drud,
Mi roddwn, gyd â llawen fryd,
Y byd i gyd i ti:
Sul, na gwyl, na gwaith,
Nid erys amser ar ei daith;
Nid erys ynni nwyfiant chwaith
I mhlesio i na thi;

Am hynny, Gwen, tosturia 'n ddwys,
Rhag ofn fy ngyrru dan y gwys;
O! tyr'd, fy meinwen lawen lwys,
I'r Eglwys hefo fi.

Perl fy Nwyfron.

PERL fy nwyfron, cares hinon,
Claf o gariad ydwyf fi:
Hwyr a boreu mae fy nghalon
Yn dychlamu attat ti:
Mae dy eilun yn ymrithio
I fy ngolwg i o hyd;
Pan yn effro, neu yn huno,
Dottio byddaf ar dy bryd.

Beth yw 'r byd heb gwmni tirion
Meinwen lawen, liwus, lon?
Trigfa blinder a gofalon,
Yw o hyd i'm bryd a'm bron:
Cymmer feddiant o fy nghalon,
Gwênau mwynion, gwin, a medd;
Caraf di, fy ngeneth wiwlon,
Yn y byd ac yn y bedd.

Tros y Garreg.

TROS y Garreg syllu wnaf,
Hwyr a boreu hirddydd haf,
Am f' anwylyd
Hardd a hyfryd,—
Yn ei lânbryd gwynfyd gaf:
Aled ddenaf attaf fi,
Fel y dena 'r lloer y lli;
Deued Aled fwyn i'r ardd,
Rhosys wridant, anian chwardd;
Deued, deued,
O! prysured,
I fy monwes doed fy Mardd.

'Mhlith y blodau rhodio wnawn,
Gwrando wnelwyf drwy 'r prydnawn,
Miwsig nefol,
Geiriau gwrol,
Aled ddynol ddenol ddawn:
Ennyn wna ei Awen ffri
Serch a ffydd fy nghalon i;
Tros y Garreg syllu wnaf,
Hwyr a boreu hirddydd haf,
Am f' anwylyd
Hardd a hyfryd,—
Yn ei lânbryd gwynfyd gaf.

Ymadawiad y Brenin.

MEDD y Brenin wrth y gâd,
Dewch, fy milwyr, hefo fi;
Byw a marw dros ein gwlad
Ydyw ein dyledswydd ni:
Amddiffynnwn Gymru rydd,
"Cymru fu a Chymru fydd;"
Byddwn bur,
Byddwn bur,
Fel cleddyfau dur:
Daccw 'r gelyn ar y Rhos,
Congcwest fynnwn cyn y nos.

Pwy sy 'n dewis ennill clod?
Pwy sy 'n chwennych parch a bri?
Pwy ym mlaenaf fynnant fod?
Deuant a dilynant fi:
"Cymru fu a Chymru fydd"—
Dewrder ydyw tarian ffydd—
Byddwn bur,
Byddwn bur,
Fel cleddyfau dur:
Daccw 'r gelyn ar y Rhos,
Congcwest fynnwn cyn y nos.

Hela 'r 'Sgyfarnog.

AWN i hela y 'sgyfarnog,
Rêd ei gyrfa 'n fuan iawn;
Deuwch, helwŷr, yn galonnog,
Iechyd gyd â gwynfyd gawn.
Helgwn llafar lef udganant,
Pan y rhedant dros y Rhos,
Gwŷr a meirch yn chwim garlammant,
Neidiant dros bob clawdd a ffos.

Dedwydd bleser yw carlammu
Gwaun a dôl, a bryn a phant,
Pan fo 'r helgwn yn udganu,
Deffry adsain glyn a nant:
Deuwch, helwŷr, yn galonnog,
Deuwch mewn llawenydd llawn;
Awn i hela y 'sgyfarnog,
Iechyd gyd â gwynfyd gawn.

Ein Hanwyl Wlad Folianwn.

DEFFROED dawn y Delyn,
I ennyn nwyfus dân
Yn monwes pawb i ddilyn
Ein mawl i Walia lân:
Dy garu di yn ffyddlon
Yw'n prif ddedwyddyd ni:
I bob gwladgarol galon
Paradwys ydwyt ti:
Ein hanwyl wlad folianwn
A hoffwn hon o hyd;
A'i henw ogoneddwn
Tra byddwn yn y byd.

Cain wlad yr hên Frythoniaid
Yw'n hetifeddiaeth ni:
Gogoniant ein Gwroniaid
Oedd dy amddiffyn di:
A ninnau, fel ein Tadau,
Er gofid, poen, a chur,
O eigion ein calonau,
I Walia byddwn bur:
Ein hanwyl wlad folianwn
A hoffwn hon o hyd;
A'i henw ogoneddwn
Tra byddwn yn y byd.

Molawd Mai.

MAE Mai hefo mânddail yn hulio'r llwyn,
A'r adar mewn nwyfiant yn canu'n fwyn,
A'u miwsig yn lloni pob cwm a glyn,
A'r wyn bach yn prancio ar ael y bryn.

Awelon chwareuant â'r deilos mân,
Cusanant y rhosyn a'r lili lân;
Cyhoeddant lawenydd i fryn a dôl,
Brenhines y misoedd a ddaeth yn ôl:
Teganau tryloewon o berlau gwlith
Ddisgleiriant ar geinion ei mantell frith;
Y ddaear adfywia tan wênau hon
A haeledd bendithlawn ei ffrwythlawn fron.

Y gauaf ehedodd o wydd yr ha',
I rynnu a chrynu yn ngwlad yr ia;
Daeth Mai a thrysorau ei chalon lân
I loni holl anian â cherdd a chân:
Mae'r heulwen yn gwênu ar waen a thwyn.
A phobpeth yn fywus a llawn o swyn;
Mor beraidd a hyfryd yw'r gwynfyd gawn—
Yn unol âg anian ymlawenhawn.

Mae Mai hefo mânddail yn hulio'r llwyn,
A'r adar mewn nwyfiant yn canu'n fwyn,
A'u miwsig yn lloni pob cwm a glyn,
A'r wyn bach yn prancio ar ael y bryn.

Castell Caerphili.

AR foreu teg eis gyda'r wawr
I syllu ar y castell mawr,
Gan syn fyfyrio lawer awr
Ar ddewrder, nerth, ac ynni,
Y rhai a fuont ar eu hynt
Yn brwydro yn yr amser gynt,
A'u baner fflamgoch yn y gwynt
Ar uchaf Dŵr Caerphili.

Yn lle rhyfelwyr llawn o dân,
Yn dawnsio â lodesi glân,
A beirdd yn anfarwoli cân
I arwyr am eu mawredd:
Y cogfrain hyfion nythant fry.
A'r dylluanod wnant eu ty
Tu mewn i furiau'r castell cry',
A'i dyrau anghyfanedd.

Yn lle y seirian arfau dur,
A gwridog wedd y cedyrn wyr,
Yn mhob ystafell, cell, a mur,
Adfeiliant sy'n bodoli:
Nid oes yn awr na gwin na mêdd,
Na rhyfyg afiaeth yn y wledd,
Ond dystaw, fel y dystaw fedd,
Yw Castell mawr Caerphili.

Merch Megan.

A WELSOCH chwi 'rioed mo Elin, merch Megan,
O gwmpas ei gwaith yn ddiwyd a llon?
Mae pobpeth a wnêl yn bleser i'w weled,
A'i gwên yn y ty fel heulwen ar dòn:
Bydd cysur a mwyniant o'i gwyneb yn t'wynu,
Wrth olchi a smwddio a gweithio'n ddigwyn,
Yn beraidd o'i min bydd miwsig yn llifo
Mor swynol a llais yr eos mewn llwyn.

Mae Elin yn lân a gonest ei chalon,
Ei phurdeb a'i ffydd yn glodus drwy'n gwlad;
Caredig yw hi a hoffus a thirion,
Anwylyd ei mam,—llawenydd ei thad:
Ffynonell cysuron a thelyn anwyliant
Fydd Elin f'anwylyd pan unir nyni:
Wrth deithio drwy'r byd mewn hedd a boddlondeb,
Dedwyddyd fydd hi bob munyd i mi.

"Llwyn Onn."

YN rhodio yr ydwyf, yn isel fy nghalon,
Hyd laswellt a mwsog cysgodion Llwyn Onn,
Er trydar mân adar, a miwsig awelon,
Mae gofid a thristyd yn llethu fy mron:
Fan yma mi welais y feinwen anwylaf,
A phlethiad o flodau 'n coroni ei phen;
Y'mhlith y brïallu hi rodiai yn araf—
Meddyliais mai duwies a welais îs nen.

Mae 'r haul etto 'n gwenu ar dlysni y tewlwyn,
A'r awel yn chwareu ar delyn y dail.
Mae 'r adar yn trydar i loni y gwyrddlwyn,
A minnau mewn breuddwyd, heb sylwedd na sail,
Yn gofyn i'r blodau, y coed, a'r awelon,
Yn isel, yn ofnus, ac ysig fy mron,
"Pa le mae y feinwen a swynodd fy nghalon?"
Mae'n huno yn dawel ym monwent Llwyn Onn.

Telyn Cymru.

CYNHYRFA ddawn dy delyn fwyn,
A'th ddoniol law, delynor hên;
Ei thônau hi, a'i melus swyn,
A wna i Walia wisgo gwên:
Pan fo y gwlith yn min y nos
Yn perlio ar bob gwaen a thwyn,
Eolaidd lais y delyn dlos
A ysbrydola alaw fwyn.

Dywenydd roist i'r Cymry gynt,
A mwyniant am ganrifoedd maith;
A rhoi i ninnau ar dy hynt,
Adloniant ar ein dyrus daith:
Brenhines miwsig ydwyt ti,
Yn lleddfu cur, yn llonni cwyn;
A mil melusach wyt i ni,
Na llais yr awel yn y llwyn.

Eilonwy.

CAIN yw'r afonydd,
Pan fo'r haul yn t'wynu'n braf;
Mwyn ar y mynydd
Ydyw heulwen haf:
Gloywach, eneth wiwlon,
Yw dy wyneb mwyn i mi;
Heulwen i fy nghalon,
Yw dy wenau di;
Lanaf Eilonwy,
Pryd y deui i fy nyth?
Anwyl Eilonwy,
Caraf di am byth.

Chwim edyn awel,
Ar fy hynt, pe meddwn i,
Down, feinwen dawel,
I dy hoffi di:
Cyflym fel yr awel,
Hêd per nwyfiant o fy mron,
Drwy y gwres a'r oerfel,
Attat eneth lon:
Lanaf Eilonwy,
Pryd y deui i fy nyth?
Anwyl Eilonwy,
Caraf di am byth.

Purdeb.

PURDEB sydd mewn llan a llys
Fel enfys ar y cwmwl,
Euro wna â lliwiau llon
Y niwl fo'n toi y meddwl:
Pan fo'r galon yn llesgau
A loesau yn ei llaesu,
Purdeb ddaw i ysgafnhau
Y llwythi sy'n ei llethu.

Diffyg hoen sy'n boen dibaid
I enaid yr anunion,
Er fod llawnder yn ei nyth,
Ni fydd ef byth yn foddlon:
Ond y cyfiawn fydd yn fwyn
Wrth ymddwyn mewn uniondeb,
Gan y byd caiff enw da
A geirda i'w gywirdeb.

Golud mwy yw calon lân,
Nag arian i rai geirwir.
Trist yw gwrando geiriau gau
O enau y rhai anwir:
Tra bo'r byd mewn cariad pur,
Yn mynu cysur mwyniant,
Purdeb fo goleuni glân,
Ei gân a'i holl ogoniant.

Gelert.

O'R helfa ar ei fuan farch,
Llywelyn ddaeth i'w lys,
Gan seinio'i gorn, ac atto daeth
Ei deulu oll ar frys:

Pan welodd wedd ei rïan lân,
A'i gwênau hawddgar hi;
"Pa le mae Gelert?" ebai ef,
"Pa le mae mhlentyn i?

Paham na ddaw y ddau yn awr
A chroesaw mawr i mi?"
"Mae'th fab mewn hûn—a thybiais i,
Fod Gelert gyd â thi."

"Gâd i mi wel'd fy anwyl fab,
A'i wasgu at fy mron;
Fy nhrysor penaf ydyw ef
Ar wyneb daear gron."

Ar frys yr aeth i'w stafell ef,
Cadd yno ddychryn mawr;
'Roedd cryd ei blentyn wedi ei droi
A gwaed yn rhuddo'r llawr!

"Fy mhlentyn tyner," ebai ef,
"Fy mhlentyn anwyl i!
Rhyw lofrudd, a'i ysgeler law,
Derfynodd d'einioes di!"

A Gelert o rhyw dywyll le,
A godo̊dd ar ei draed;
A'i lygaid yn melltenu tân,
A'i safn yn goch gan waed:

"Ai ti a wnaeth y weithred hon?
O elyn tost i mi!"
A sydyn gyda'i gleddyf llym
Trywanodd ef ei gi.

Ah! dyna lais o dan y cryd,
Fel miwsig angel syw;
Ymgrymu wna y fam a'r tad,
Mae'r plentyn etto'n fyw.

Wrth droi y dillad, gwelant ef
Yn gwênu yn ei hûn;
Ac wrth ei ben yn gelain gorph
Mae blaidd o aflan lûn.

Llewelyn ddwedai yn ei loes,
"O! Gelert, ffyddlon gi,
Achubaist ti ei fywyd ef,
A lleddais innau di!

Cei faen o farmor ar dy fedd,
Anrhydedd fydd dy ran,"
A'r ci wrth lyfu llaw y llyw,
Fu farw yn y fan!

Fy Hoff, Lwys Wlad.

MOR anwyl yw dy wedd i mi,
Fy hoff, lwys wlad :
Gogoniant Prydain ydwyt ti,
Fy hoff, lwys wlad :
Tra bo hediad yr awelon
I'th gofleidio yn yr hinon,
Ceir dy arlun ar fy nghalon,
Fy hoff, lwys wlad.

Yn niwedd oes, O ! boed i mi,
Fy hoff, lwys wlad :
Gael byw a marw ynot ti,
Fy hoff, lwys wlad :
Cwyd y weddi o fy nghalon,—
Bydded iti bob bendithion,
Rhyddid, hedd, a Duw a digon,
Fy hoff, lwys wlad.

Boed Ysbryd ein Cyndadau.

BOED ysbryd ein cyndadau
Fu'n cyneu yn mhob bron,
Wrth noddi ac amddiffyn
Ein gwlad ar dir a thòn;
Yn enyn ynom ninnau
Fflam bur o wladgar dân,
Nes bo pob bron yn danbaid
O serch at Walia lân.

Tra byddo ffydd a rhinwedd
Yn ysbrydoli cân,
O, bydded ein calonau
Yn bur i Walia lân!

I Gymro glân ei galon
Fo'n mhell o'i gartref clyd,
Anwylach ydyw Gwalia
Nac unman yn y byd:
Er iddo hir forwrio
Dros drum yr eigion maith,
Nis gall ef byth anghofio
Ei ffydd, ei wlad, a'i iaith:

Tra byddo ffydd a rhinwedd
Yn ysbrydoli cân,
O, bydded ein calonau
Yn bur i Walia lân!

Ei thelyn a'i athrylith,
Ei thonau lleddf a llon,
A godant wir wladgaredd
Uwch gwyn y ddaear hon:
Mae awen Cymru anwyl
Fel disglaer ffrwd y nant,
Yn lloni yn berseiniol
I loni gwedd ei phlant:

Tra byddo ffydd a rhinwedd
Yn ysbrydoli cân,
O, bydded ein calonau
Yn bur i Walia lân!

Bad-Gan.

AWN yn ein bâd hyd loew lyn,
Cawn weled ar ein taith,
Adluniad prydferth o bob bryn,
O dan ei wyneb llaith.

A thrwy y dydd cydseiniwn gân,
Wrth rwyfo dros y lli,
Nes dêl y lloer, fel morwyn lân,
I wenu arnom ni.

Dyffryn Clwyd.

"Sweet Vale of Avoca."—MOORE.

NID oes drwy holl Frydain un dyffryn mor hardd
A Dyffryn Clwyd iraidd, mor beraidd i'r Bardd;
Gwywedig fo nwyfron, fy nghalon, a nghân,
Os byth yr anghofiaf y Dyffryn mwyn glân.

Mae natur yn gwenu i'm denu ar dwyn,
Pa ddyffryn mor anwyl? pa ddyffryn mor fwyn?
Hâf wisgiad amryliw pob llannerch a llwyn,
A'i ffrydiau grisialaidd a'm llenwant â swyn.

Y coedydd a'r dolydd mewn mantell o wyrdd,
Heirdd lysiau a blodau fel gemau fil myrdd;
Ond er holl ogoniant y Dyffryn, a'i fri,
Mae rhywbeth mwy peraidd a mwynaidd i mi.

Bydd meinwen fy monwes yn gynnes ei gwedd
Wrth araf ymrodio drwy'r Dyffryn mewn hedd;
Llawenaf pan welaf deg anian ei hun,
A'i thlysni'n adlewyrch yn llygaid fy mûn.

Dymunwn gael gorphwys yn glau ac yn glyd
Yn monwes y Dyffryn o stormydd y byd,
Yn nghwmni f'anwylyd yn hyfryd mewn hedd,
A myn'd mewn tangnefedd o'r diwedd i'r bedd.

Kathleen f' Anwylyd.

"Kathleen Mavourneen."

KATHLEEN f'anwylyd, mae'r boreu yn gwawrio,
A'r heliwr yn seinio ei gorn yn y llwyn;
Ar edyn yr hedydd mae purwlith yn perlio,
A tithau yn huno—O gwrando fy nghwyn;
A wyt ti'n anghofio mai 'chydig o oriau
A gaf cyn dy adael, fy mûn deg dy bryd,
Efallai am flwyddyn, efallai hyd angau,
Angyles fy nghalon! paham 'rwyt yn fûd?

Kathleen f'anwylyd, dihuna, dihuna,
Mae'r haul yn goreuro bryn, dyffryn, a dôl;
Rhyfeloedd a'm galwant i'r waedlyd ymladdfa,
A phwy wyr, f'anwylaf, a ddeuaf yn ol?
I lawr hyd fy ngruddiau yn hidyl rhed dagrau,
Wrth adael fy Nghathleen i ymladd â'r byd;
Efallai am flwyddyn, efallai hyd angau,
Angyles fy nghalon! paham 'rwyt yn fûd?

Chwareuwch eich Telynau.

"Now the Bards their harps full sounding."—Miss Wharton Duff.

Air—"Dewch i'r Frwydyr."

FEIRDD chwareuwch eich telynau,
Cenwch glod ein T'wysog cu;
Nes adseinia y mynydd..u
Glod Llewelyn i bob llu;
Dewch i'r frwydyr oll,
Dewch heb un yn goll,
Arwr sy'n rheoli'r gâd:
Amddiffynwn ef,
Bloeddiwn ag un llef,
Rhyddid, braint, a bri ein Gwlad.

Llewyrch haul sydd ar darianau,
Llachar yw cleddyfau'r gâd;
Mellt a wibiant o helmedau
Gwyr yn ymladd dros eu Gwlad:
Mathrant dan eu traed
Lu ar faes y gwaed;
Marw wnant—neu fyw yn rhydd—
Clywch eu rhyfel gri,
"Duw fo gyda ni,"
"Cymry fu, a Chymry fydd."

Y Ferch Siomedig.

"Ye banks and braes o' bonnie Doon."—BURNS.

HYD finion dolydd gleision Clwyd
Ceir blodau ceinion yn mhob gardd,
A'r adar bynciant yn y llwyn,
Heb hidio 'nghwyn am lengcyn hardd:
Fy nghalon dŷr wrth glywed cân
Yr adar mân mewn nefol nwy,
Yn galw i'm cof bleserau gynt,
Ond byth ni welaf monynt mwy.

Hoff, hoff i mi fu'r blodau heirdd
A hilient gyrrau'r geirdd yn gu,
A melus swyn yr adar mwyn
A leisient yn y llwyn yn llu;
Cynnygiais rosyn teg ei liw
I nghariad gwiw—ond gwae i mi,
Ei ddryllio wnaeth, a'r pigyn aeth
Fel saeth i nghalon dirion i.

Gweno.

"Fly from the world, my dear Bessy, to me."—
MOORE.

JED ymaith o'r byd, Gweno fwyn, ataf fi,
Ni weli byth lengcyn ffyddlonach:
Mwy gwerthfawr nâ'r byd yw dy gariad i mi,
Ni welaf byth eneth anwylach:
Na ddywed mewn tristwch a'th lygaid yn lli—
Bydd beiwyr yn cellwair ein hundeb;
Gâd iddynt, fy nghalon, i ti ac i mi,
Melusach yw serch na doethineb.

Pan gyffwrdd dy wefus â'm gwefus, fy mûn,
Heb g'wilydd, ond gwylaidd a gwiwlan;
Fydd rhinwedd yn gwahardd dwy wefus yn un?
Na,—nwyfiant o'r nefoedd yw cusan;
Diniwaid dy gusan, melusach nâ gwin,
Dieuog, dibechod, f'anwylyd!
Pe bai fy ngamweddau i gyd ar dy fin,
Cusanwn hwynt ymaith mewn munyd.

O! tyr'd i fy mwthyn a gâd y gwag fyd,
Nid yw heb wir gariad ond sothach;
Ein cwsg fydd felusach, ein gwely mwy clyd,
Nâ chwsg a gwelyau rhai doethach:
A phan y bydd stormydd yn chwiban uwch ben,
A thithau mewn dychryn yn crynu—
Cei monwes yn lloches rhag dwndwr y nen,
A'r gwyntoedd a'th suant i gysgu.

Pan ar ein claf wely 'r edrychwn yn hy',
I fynu i fyd y goleuni;
Pêr weddi fy Ngweno a gyfyd i'r fry
Ac angau a gyll ei wrthuni;
Cusanwn, a d'wedwn,—terfynwyd ein gwaith,
Ffarwel—a boed i ni faddeuant—
Pelydron dy lygaid oleuant ein taith
I fynu i fyd y gogoniant.

Yr Ehedydd.

Tôn Yspaenaeg.

AWN i'r mynydd ar foreuddydd yn yr hâf-
ddydd,
I glywed melus gân yr 'hedydd:
Cwyd o'r gweirydd, o'i nyth dedwydd, yn y dolydd,
I beraidd seinio ti ra la:
Yspryd nefol llon ei garol ac awenol,
Swynol yw ei gerdd i'r Ha'.

Mewn awelon, uwch y goedfron, yn yr hinon,
Y bydd yn pyncio pêr alawon:
Lleisiwr gwiwlon llawn ei galon o fendithion,
Anwylaf yw o'r adar mân;
Ar chwim edyn deil ei delyn Haf a Gwanwyn,
A dwyfol yw ei gwafriol gân.

Castellawg Greigiau Drachenffels.

"The castled crags of Drachenfels."—Byron.

CASTELLAWG greigiau Drachenffels
Ymguchiant uwch y lefndeg Rîn,*
Hyd lenydd hon mae ffrwythlon eirdd,
A gwinwydd dyfant hyd ei mîn,
A bryniau lle tŷf blodau heirdd,
A chaeau lle ceir ŷd a gwin,
A ffrydiau, fil, grisialaidd deirdd
O'r nentydd pell a'r clogwyn blin;
Ond llawer mwynach faent i mi
Pe cawn dy anwyl gwmni di.

Rhianod rodiant yn y geirdd,
Hyd froydd paradwysawl Rhin,
Ac yn eu dwylaw flodau heirdd,
Amryliw dlysau'r hafaidd hin;
Gwyn-galchog drefydd, teiau Beirdd,
Murddynau Cestyll hyd ei min,
Gwyrddleision lwyni heirdd, a cheirdd
Yr adar mân yn ngwlad y gwin;
Ond can' mil mwynach faent i mi,
Pe cawn dy anwyl gwmni di.

* Rhine.

R'wy'n gyru iti lili wen,
Er mai gwywedig ydyw hon,
Ac er mor isel yw ei phen,
Caiff nythle ar dy serchlon fron;
Bu'n hoff i mi, bydd hoff i ti,
Rhydd fwynder it' â llygaid llon;
Ehêd dy feddwl ataf fi
I rodio uwch grisialaidd dôn
Yr afon lefn, lle cefais i
Y lili i'th anrhegu di.

Yr ogoneddus afon glir
Rêd drwy ddyffrynoedd hyfryd iawn;
Ac yn ei throion drwy y tir,
Rhyw wrthrych newydd beunydd gawn;
O'm calon chwâl bob cur a chwyn,
I'm monwes rhydd lawenydd llawn;
Mor hardd pob man—pob llan—pob llwyn—
Ond harddach fyddant oll, pe cawn
Fy mûn i rodio 'ngwlad y gwin,
Hyd ddolydd o dyffrynoedd Rhin.

Iawn a Grym.

"Right and Might."—T. Cambria Jones.

CYN iddynt ranu daear Duw,
Pan oedd dynolryw yn gyttun;
Rhyw isel ddyn, a'i enw oedd Iawn
Wnaeth fwthyn iddo 'i hun.

Fe gauodd dir o gylch ei dŷ,
A gweithiai 'n galed ddydd a nos,
Nes aeth ei ardd yn Eden hardd,
A siriol fal y rhôs.

'Roedd ef yn gyfaill i bob dyn,
A bendith nef oedd ar ei lwydd:
Hael nodded i friwedig fron
A roddai ef yn rhwydd.

Ond daeth dieithryn drwy y tir,
Fel Brenin balch, a'i wedd yn llym,
A thyngai lw ar ei gleddyf noeth,
Cai Iawn roi lle i Rym.

"Tyr'd o dy fwthyn Meister Iawn,
A dod dy eiddo oll i mi:
Myn Arthur! fi a bia'r byd,
Nid ffyliaid fel tydi."

Medd Iawn, "pwy feiddia ddod i nhŷ
I fy sarhâu âg uchel lais;
Gwell iti weithio fel myfi,
Gwell llafur trwm na thrais."

"Tyr'd o dy fwthyn, Meister Iawn
A dal dy dafod, gorryn main:
Tyr'd allan, neu, yr isel gnaf
Mi'th wnaf yn fwgan brain."

Ar hyn fe chwythodd Grym ei gorn,
Ei *Eurawg gorn* yn nghlyw y wlad;
A chnafiaid gyrchent at y sŵn,
A meibion Llid a Brâd.

Pan welai'r lluoedd Rym y balch,
Rhoent iddo groesaw gwych a llawn:
'Roedd Grym yn uniawn yn eu tŷb,
Anuniawn ydoedd Iawn.

"Boed fyw ein Brenin," ebe nhw,
"Boed fyw ein Brenin Grym am byth;
A'r hwn a rwgnach rhag ei drefn
Taflwn ef dros y nyth."

Y noswaith honno cafwyd Iawn
Yn was ysgymun yn y tir;
A Grym yn arglwydd yn ei dŷ
Ac Iawn yn wael yn wir.

Ysgymun was heb ffrind na chår
Yw Iawn heb gell na llogell lawn;
Ac yn mhob cwrr o'r eang fyd,
Grym ydyw Brenin Iawn.

Mis Mai.

MAE'R blodau yn blaendarddu
A'r dail yn hulio'r llwyn,
Mae'r ddaear oll yn gwênu
O dan ddylanwad mwyn;
Rhêd tês drwy ei gwytheni,
Mae bywyd yn ei bru,
I fywiolhau y llwyni
A myrdd o flodau cu.

Y gogoneddus liwiau
Addurnant fantell hardd
Yr Haf, a thlysion flodau
Mewn llwyn, a dôl, a gardd
Lawenant yn yr heulwen
Mewn gwynfydedig rith;
Tryfithant wedd daearen,
Ymloywant yn y gwlith.

Eolaidd yw'r awelon
A suant yn y llwyn,
A'r ffrydiau yn yr hinon
Sisialant fiwsig mwyn;
Naid brithyll yn yr afon
I ddal y gwybaid mân;
A'r fronfraith yn y goedfron
Sy'n pyncio melus gân.

Mae'r defaid ar y mynydd
A'r bugail ar eu hôl,
A'r gwartheg yn dra dedwydd
Wrth bori yn y ddôl;
Mae'r awyr lâs yn glirlan,
A'r haul mewn breiniawl fri—
Ymddengys fod holl anian
Yn happus, *ond y fi.*

Ar hyd y Nos.

YN fy nghwsg fy hoff ddymuniad,
Ar hyd y nos,
Yw breuddwydio am fy nghariad,
Ar hyd y nos;
Gweled angel yn ei gwylio,
Diniweidrwydd yn ei hulio,
A gwyleidd-dra i'w bendithio,
Ar hyd y nos.

Gweled gwên yn llawn anwyldeb,
Ar hyd y nos,
Yn tywynu yn ei gwyneb,
Ar hyd y nos;
Gwên o gariad pur yn gloywi,
Gwên yn cynnyg calon imi;
Minnau 'n methu cyraedd atti,
Ar hyd y nos.

Hiraeth-Gan.

Tôn—"Mary Blane."

ER cael pleserau o bob rhyw,
A byw mewn hufen byd;
Ni roddant imi fawr o hedd,
Ond gwagedd ynt i gyd:
Pa les i mi yw rhodio'n rhydd
Ar hyd y gwledydd glân!
Pa fodd y gwnaf ymlawenhau
A'm ffrindiau ar wahân?
Fy nghalon dirion lam o hyd
I'r dyffryn clyd lle'm ganwyd i:
Anghofier fi gan bawb drwy'r byd,
Os byth anghofiaf di.

Rhyw hudol fwyn hyfrydol fan
Yw'r llan ar fin y lli;
Melusol ydyw cwafriol gân
Hedyddion mân i mi:
O lawnder calon fronfraith lân
Gogleisgân ddiddan ddaw,
A pheraidd gwyn y fwyalch fwyn
O gwr y llwyn gerllaw;
Fy nghalon dirion lam o hyd
I'r dyffryn clyd lle'm ganwyd i:
Anghofier fi gan bawb drwy'r byd,
Os byth anghofiaf di.

Rhoir clod i Lundain gain ei gwedd,
A'i mawredd yn mhob man;
Er hynny hoffwn fyw yn rhydd
A llonydd yn ein llan.
Cawn yno groesaw gan fy Mam,
Heb ofyn pa'm y dois;
Na'r achos i mi droi yn ol
O siriol wlad y Sais:
Fy nghalon dirion lam o hyd
I'r dyffryn clyd lle'm ganwyd i:
Anghofier fi gan bawb drwy'r byd,
Os byth anghofiaf di.

Er cael cyfeillion rif y sêr
A mwynder yn mhob man,
Hiraethu wnaf am fyn'd yn ol
I'm genedigol lan:
Cael eiste'n ymyl aelwyd hardd
Fy Mam, yn Fardd o fri,
Yn nghwmni bachgen bochgoch iach,
Mil mwynach yw i mi:
Fy nghalon dirion lam o hyd
I'r dyffryn clyd lle'm ganwyd i:
Anghofier fi gan bawb drwy'r byd,
Os byth anghofiaf di.

Nid oes i mi ond gofid dwys
Wrth fyw dan bwys y byd;
Rhyw oerfel drwy fy monwes draidd
A gwelwaidd yw fy mryd:
Er holl blesserau'r ddaear hon
Ni fydd fy mron yn iach,
Yn unman arall dan y ne',
Ond yn ein pentre bach:

Fy nghalon dirion lam o hyd
I'r dyffryn clyd lle'm ganwyd i :
Anghofier fi gan bawb drwy'r byd,
Os byth anghofiaf di.

Pe cawn adenydd c'lomen deg
Chwim hedeg yno wnawn,—
Dros fryn a dyffryn, dôl a gwaen,
Ymlaen, ymlaen yr awn,
Nes imi fyn'd i'r dyffryn glwys
Heb orphwys ar fy hynt ;
Ond hedeg wnawn i'r hyfryd fan
Yn fuan fel y gwynt :
Fy nghalon dirion lam o hyd
I'r dyffryn clyd lle'm ganwyd i :
Anghofier fi gan bawb drwy'r byd,
Os byth anghofiaf di.

Cwymp Llewelyn.

Tôn—"Toriad y Dydd."

ÖRENWOG wlad fy nhadau, mor anwyl i mi wyd
A'r haul sy'n siriol wenu'n awr ar Ddyffryn clodfawr Clwyd;
Pa le mae haul dy lwyddiant, dy ryddid, a dy hedd?
Machludo wnaethant oll pan roed Llewelyn yn ei fedd.
Nid oes yn awr ond gormes; a diles ydyw'm dawn,
A diles yw fy awen fwyn, a chwyn fy nghalon lawn;
Ein parch a'n bri a chwalwyd ar daen i'r pedwar gwynt,
A'r Saeson sy'n rheoli gwlad y dewrion Gymry gynt.

Yng nghanol tincian arfau, bonllefau, caniad clych,
Mae'r gelyn cryf yn gwledda yn ei gastell cadarn gwych,
Yn llawn o rwysg a hyder.—O! ofer yw fy nghân,
Ac ofer yw fy nhelyn fwyn, a swyn ei thanau mân;
Mae nghalon i dan gwmwl, a'm meddwl sydd yn brudd,
Fy monwes yn ofidus iawn, a dagrau ar fy ngrudd:
O! anwyl wlad fy nhadau, nid oes i mi ddim hedd,
A gwywo wnaf o ddydd i ddydd nes syrthiaf i ddu fedd.

Gogoniant i Gymru.

Tôn—"Llwyn Onn."

GOGONIANT i Gymru, anwylwlad fy nhadau,
Pe medrwn, mawrygwn dy fawredd a'th fri;
Mae'r Awen yn caru dy wedd a'th rinweddau.
Hoff fammaeth athrylith a dewrder wyt ti:
Bu amser pan hoffai T'wysogion dy Delyn,
A'i sain a gyffröai wrolion y gâd,
I ruthro'n ddisymwth ar warchae y gelyn,
Gan ymladd dros Ryddid a breintiau eu gwlad.

Fy henwlad fendigaid mae anian yn urddo
Pob mynydd a dyffryn, pob clogwyn a glyn!
Ac yspryd prydferthwch a'i liw yn goleuo
Pob afon ac aber, pob llanerch a llyn;
Gwladgarwch a rhinwedd fendithiant dy enw,
Dy feibion a'th ferched a garant dy fri;
Gorhoffedd dy feirddion yw denu dy sylw—
Er gwaethaf pob gelyn eu testun wyt ti.

All Hail to Thee, Cambria.

Air—"Llwyn Onn."

ALL hail to thee, Cambria, the land of my fathers,
I would I could make thee immortal in song;
Thy virtues the muse from thy history gathers,
Thou cradle of genius and home of the strong:
The strains of thy minstrels were pure as thy fountains,
They hallowed thy glory, joy, sorrow, and strife;
Thy proud-hearted warriors have roam'd o'er thy mountains
And fought in thy valleys for freedom and life.

All hail to the country where nature discloses
Her charms in each valley and heath-covered hill,
'Mid scenes where the Spirit of Beauty reposes
In dell, rock, and mountain, lake, river, and rill:
Shall thy children disown thee and leave thee to perish,
Or tarnish the glory that circles thy fame?
No, no,—In their hearts thy bright forms they will cherish,
And truth and affection will cling to thy name.

Can i'r Aderyn.

Tôn—"Y Deryn Pur."

O! DYRO i mi, aderyn mwyn,
Dy gân o'r llwyn i'm llonni;
Diniwed yw dy galon lân,
Dy anian yw daioni;
Gorlawen yw dy swynawl awen,
Wrth byngcio'n bêr ar frig y gangen;
Yn goglais anian yn y goedwig,
A minnau'n dotio ar dy fiwsig,
Wrth wrando mewn pêr-lewyg draw,
Gwir alaw dy garolig.

Ow, ow! na bawn yn dderyn bach,
A'm bron yn iach i ganu;
Yn byw heb ofal, llid, na gŵŷn,
Fel ti, aderyn mwyngu;
Yn ngwên yr heulwen mi garolwn,
A hedeg wnawn i'r man y mynwn,
Ar edyn swynawl serch a gallu,
I yru f'enaid ar i fynu;
Hyfrydol ganu wnawn o hyd,
Nes byddai'r byd yn synnu.

Yr Eos Unig.

Tôn—"Venite per me, Venite per me, Cari Amici."

GALARUS ydwyf yn y llwyn,
Ni fyddaf mwy yn llon;
Ar ol dy golli gymhar mwyn,
Mae pigyn yn fy mron;
Mae nghalon yn glâf, a gofid a gâf,
Addfwyn anwylyd.

Pa le y mae dy hoffus swyn?
Pa bryd y deui 'n ôl?
Pe bawn yn gwybod am y llwyn,
Ehedwn i dy nôl;
Annedwydd wyf fi, annedwydd wyf fi,
Addfwyn anwylyd.

Cwynfanus wyf, a gwael, a gwan,
Nid oes i mi ddim hedd;
Er crwydro'n brudd o fan i fan,
R'wy'n methu gwel'd dy wedd;
O! tyred i'm nyth, mi'th garaf am byth,
Addfwyn anwylyd.

Y Bwthyn Gwyn-galchog.

Tôn—"Llwyn Onn."

MOR ddestlus yw'r bwthyn wrth odrau y mynydd,
Mor glaerwyn a disglaer yn ngwyneb yr haul;
O'i amgylch mae coedydd a bryniau a bronydd,
A ffrydiau grisialaidd yn llifo'n ddi ffael:
Mor gannaid llewyrcha yn delaid uwch dolydd,
Yn nghanol y gwyrddlwyn mor addfwyn ei rith;
Mae'n huno yn dawel mewn haulwen ysblenydd,
Mor ddisglaer a pherlyn neu ddefnyn o wlith.

Arwyddlun o burdeb, a hedd, a boddlondeb,
Mor firain ac oriau llawenydd wyt ti;
Na foed i genfigen, na llid, na di undeb
Dywyllu dy aelwyd na duo dy fri:
Ond hyfryd a harddwych boed aelwyd a phentan,
Mor glaerwyn a phurlan a monwes fy mûn;
Dy feibion yn ddewrion, a'th ferched yn wiwlan,
Yn byw yn gysurlon heb ofid na gwŷn.

Pan oeddwn yn ieuangc a'm hyspryd yn hoyw,
A'm calon yn ennyn o gariad at ferch;
Cyfarfum â Jenny, fûn lawen fain loyw,
Tan fantell dy aelwyd, ennillais ei serch—
Am hynny, fy enaid hiraetha am danat,
A'm calon a chwydda gan serch attat ti;
Mwy anwyl na Llundain yw broydd fy hen-wlad,
A mwynach yw'r bwthyn gwyn-galchog i mi.

The White-washed Cottage.

Air—"Llwyn Onn."

THAT sweet little cot at the foot of yon mountain,
So brilliantly white in the rays of the sun;
Encircled by hills where a full flowing fountain
Is formed by the crystalline rills as they run:
How sweetly it shines, and how dazzling its whiteness,
Amid the rich foliage, adorning the scene;
It sleeps in the sunshine, and borrows its brightness,
And looks like a di'mond in emerald green.

Thou emblem of purity, love, and contentment,
As bright as the joyous, sweet moments of mirth;
May withering anger and sullen resentment
Ne'er sadden thy circle, nor darken thy hearth;
But fair be thy inmates and all things about thee,
(As fair as my Jenny's sweet bosom of snow;)
The brightness within thee and fairness without thee
Recalled by my mind set my heart in a glow.

When the first dawn of passion delighted and pained me,
And sensitive feeling enforced me to pine;
'Twas there I met Jenny, whose sweetness enchained me,
Whose heart's warm affection responded to mine,

Then fair be the dwellings of Cymry's bold yeomen,
As bright as the steel of the Britons of old,
Defending their homes, when they rushed on the foemen,
And fought with a courage as brilliant as bold.

Canig.

Tôn—"Drink to me only."

MAE nghariad fel y lili lân,
Ac fel y rhosyn coch;
Mae lili ar ei gwddw gwyn,
A rhosyn ar ei boch:
Mae gwrid yn t'wynu yn ei gwedd,
A phurdeb yn ei gwên;
A gwell i'r Bardd na blodau'r ardd,
Bydd hon yn hardd yn hen.

Ond bèr yw oes y blodau cain;
Y lili syrth i lawr,
A'r rhosyn teccaf yn yr ardd
A gyll ei wiwlwys wawr:
Pan fyddant hwy heb lun na lliw
Yn wyw mewn isel fri;
Ni wywa henaint flodau serch
Y ferch a garaf fi.

Molawd Cymru.

Tôn—"Difyrwch Gwyr Harlech."

HENFFYCH well i wlad fy nghalon,
Llwyddiant iti Gymru dirion;
Bendith i dy feibion dewrion
A dy ferched glân:
Peraidd yw dy hynod hanes
I wresogi serch fy monwes;
Tra bo ngwaed yn llifo'n gynes
Caraf wlad y gân:
Anwyl wlad fy nhadau
Caraf dy fynyddau,
Creigiau gleision uwch y nant
Ymwelant a'r cymylau;
Dolydd a dyffrynoedd ffrwythlon,
Ffrydiau clir a llynau llawnion,
Adlewyrchant flodau tlysion
Yn eu dyfroedd glân:
Hiraeth sydd i'm llethu
Am anwylion Cymru;
Ow! na chawn fy mhwrs yn llawn
A chrêd a dawn i'm dênu
Adre'n ol i blith fy nheulu,
A chyfeillion i'm croesawu:
Yn olynawl gwnawn folianu
Cymru, gwlad y gân.

Mil melusach i fy nghalon
Na mwynderau gwlad y Saeson,
Cig a gwin, a da, a digon,
Ydyw gwlad y gân:
Nid oes modd i ngwên lawenu
Tra bo f'enaid yn hiraethu
Am fynyddoedd cribog Cymru,
A'i dyffrynoedd glân:
Nid y llawn heolydd,
Mwg a thwrf y trefydd,
Nid y byd, a'i olud drud,
Sy'n dênu bryd y prydydd;
Ond afonydd—gwyrddion ddolydd—
Swn yr awel yn y coedydd—
Cymau—glynau—bryniau—bronydd—
Cymru, gwlad y gân:
Cara'r oen y ddafad,
Cara mûn ei chariad,
Cara'r cybydd bwrs yn llawn;
A dyn a dawn ei dyniad:
Cara'r babi fron ei fami,
Caraf finau'r wlad wy'n foli—
Duw a wyr mor anwyl imi
Ydyw Cymru lân.

Can Gwylan y Mor.

Tôn—"A Life on the Ocean Wave."

YN fwyn a dedwydd fy mron
Yr af i fynu ac i lawr,
Wrth nofio o don i don
Hyd wyneb yr eigion mawr:
Llawenydd a gaf o hyd
Yn swyn awelon yr haf,
A'r gwynt yn siglo fy nghryd,
A'r haul yn tywynu'n braf;
Myfi yw Banon y lli
Mae ngorsedd yn eang a llaith;
Pleserus a melus i mi
Yw rhyddid y moroedd maith:
Yn fwyn a dedwydd fy mron
Yr af i fynu ac i lawr,
Wrth nofio o don i don
Hyd wyneb yr eigion mawr.

Pan fo storm yn chwiban uwch ben
A'r môr yn crochruo *bass*,
A chaddug yn hulio'r nen
Gan guddio yr awyr las;
A'r fellten yn gwibio fry,
A'r daran yn rhwygo'r nef,
Mi chwarddaf a nofiaf yn hy;
A'm calon a lam i'w llef:

Ar frig yr ewynawg li,
Machogaf yn llon fy ngwedd,
Ni fyddai o bwys i mi,
Pe'r ai'r byd i gyd i'r bedd:
Yn fwyn a dedwydd fy mron
Yr af i fynu ac i lawr,
Wrth nofio o don i don
Hyd wyneb yr eigion mawr.

Gwlad y Telynor a'r Bardd.

GWLAD y Telynor a'r Bardd,
Eden wen ydwyt i ni;
Gwalia, wlad hudol a hardd,
Dwg ni yn ol attat ti:
Er ini deithio drwy y byd,
A hwylio dros yr eigion mawr,
Pob calon lân a lam o hyd
Yn ol i Walia deg ei gwawr.

Calon wrth galon yn gu,
Unwn mewn Awen a chân;
Canwn a lleisiwn yn llu
Fawl a gwiw glod Gwalia lân:
Pob bendith itti, Walia lân:
Boed i bob Cymro tra bo byw,
Garoli mawl yn llawn o dân
I'w wlad, ei genedyl, a'i Dduw.

Emyn.

"Clodforwch yr Arglwydd; gelwch ar ei enw; mynegwch ei weithredoedd ym mysg y bobloedd."—Psalm cv.

O ARGLWYDD Dduw, canolbwynt gwawl
Anfeidrawl a digymhar;
Mor ogoneddus yw dy waith,
Drwy'r nefoedd faith a'r ddaear!

Ti ffurfiaist y ffurfafen fawr,
Y ddaear lawr a'r moroedd;
Ysplenydd yw dy ddisglaer wedd,
Wrth eistedd yn y nefoedd;

Yn anweledig i ni oll
Ond yn dy ddigoll fawrwaith;
Dadgan wna hwn mewn grymus fawl
Dy ddwyfawl Allu perffaith.

Dengys dy waith, drag'wyddawl Iôn!
I ddynion dy ddaioni,
Yn well na holl ganeuon heirdd
Y Beirdd a'r holl Brophwydi.

Angylion! cenwch yn ddi gêl
O gylch ei uchel orsedd;
Rhowch iddo Ef gydleisiawl gân
Yn llawn o dân gorfoledd.

Chwi ddaearolion, molwch Ef
A llafar lef yn lluoedd,
Y cyntaf, olaf, fythawl Ior,
Anfeidrawl Bôr y bydoedd.

Gwreichionawl ser sy'n hulio'r nen,
Y lleuad wen a'r plenyd,*
Cydgenwch, dawnsiwch yn eich gwawl,
Rhowch iddo fawl bob munyd.

A thithau Haul gogonawl, mâd,
Llygad ac enaid anian,
Addefa fod un mwy na thi
Mewn gwawl a bri sancteiddlan.

Ar dy daith drag'wyddawl, cân
Arwrgan lawn o gariad,
I'r anweledig, serchlawn Dad,
O'th godiad i'th fachludiad.

* Planedau.

Carol Nadolig.

Tôn—"Old Derby."

GOGONIANT yr Arglwydd ddisgleiriodd
O'r nefoedd y llifodd i'r llawr;
A Seren y Dwyrain a wênodd,
A'r ddaear ryfeddodd yn fawr,
Pan welid y teccaf flodeuyn
Esgorodd y Forwyn yn fyw:
Mewn preseb gorweddai y plentyn,
Teg faban, yn ddyn ac yn Dduw.

Gogoniant ein Duw Hollalluog
Dywynai yn heulog o hyd,
Yn goron o gylch ei arleisiau,
Uwch gemmau, neu berlau y byd:
A'r Iesu yn faban diniwed,
Er gwaeled a saled ei sedd,
A gyfyd yn llewyrch i'r lluoedd
Uwch oesoedd, a bydoedd, a'r bedd.

O'i amgylch y gwyliai angylion,
Mil myrdd o anwylion y nef;
Ar euraid gymylau digymar
Y cenynt yn llafar eu llef:
"Gogoniant" i'r Arglwydd Goruchaf,
Y blaenaf a'r olaf Aur yw;
I'r Mab a'r Glân Yspryd rhown foliant,
Gogoniant, addoliant i Dduw.

"Gogoniant," medd hoffus Seraphiaid,
Mewn gwisgoedd gwiw-ganaid i gyd;
"Gogoniant," medd Côr y Cerubiaid,
O! wele Ben-ceidwad y byd;
"Gogoniant" medd gwylaidd Fugeiliaid,
Bendigaid yw Duw yn y cnawd;
Mae'r Forwyn yn dal ar ei deulin,
Ein Harglwydd, ein Brenin, a'n Brawd.

I'w geulan y Diafol a giliodd,
A llechodd yn uffern yn hir,
Pan anwyd Iachawdwr y bydo'dd
Ac Angau a welwodd yn wir;
A'r Arglwydd Iehofah a wênodd
A d'wedodd, "F'anwylfab yw Ef;
Hwn garaf, yn Hwn y'm boddlonwyd,
Gwrandawed y Byd ar ei lef."

Gorlenwid y nef â gorfoledd,
Tangnefedd i'r ddaear a ddaeth;
A Chariad ar loewon adenydd
Pob calon o newydd a wnaeth:
A Meichia pechadur dyledog
Sydd faban gwyn-wridog yn awr;
Ond cyfyd yn Haul i'r ddaearen,
Siriolach na seren y wawr.

O! wele Iachawdwr a Cheidwad.
Anfeidrol ei gariad, gwir yw;
Arweinydd i fywyd trag'wyddol,
A nefol a dwyfol Oen Duw:
Gogoniant i'r Arglwydd a roddwn,
A chanwn tra byddwn ni byw;
A'n lleisiau, a'r delyn, a'r degtant,
Bêr foliant, addoliant i Dduw.

Hywel a Gweno.

Tôn—"Y Gwenith Gwyn."

MI welais fachgen ieuangc llon
Ar finion afon Elwy,
Yng nghwr y llwyn yn eilio cân,
A'r adar mân yn synnu:
Ac ebai 'r bachgen wrtho 'i hun,
"Pa le mae 'r fun a garaf?
Y fun a gerais drwy yr haf,
A garaf drwy y gauaf.

"Mae cariad wedi taflu rhwyd
O sidan ar fy nwyfron;
Perswynol rwyd o weuad serch,
Y ferch a bïa nghalon,
Ac yn y rhwyd rwy 'n byw a bod,
Ni fynnwn fod o honi;
Ac yn y rhwyd y gwnaf barhau,
Nes gwnawn ein dau briodi."

A thra 'r oedd Hywel wrth ei fodd,
Yn adrodd ei ymsyniad,
'Roedd geneth ieuangc yn y llwyn,
Yn llawn o swyn a chariad,
Yn gwrando ar ei nwyfus gân,
A'r adar mân yn llonydd;
'Roedd rhywbeth yn y ganig lon
Yn gwneud ei bron yn ddedwydd.

Fe gododd Hywel fwyn i fyn'd,
A'i ffrind, y ci, i'w ganlyn,
Fe welodd wyneb Gweno ddel
Yn gwrido fel y rhosyn—
Ym mhen tair wythnos wedi hyn,
A mi yn syn-fyfyrio,
'Roedd gwr a gwraig yn rhodio 'r llwyn,
Sef Hywel fwyn a Gweno.

Dafydd y Garreg Wen.

GWAEL a gwan ydwyf, yr awel a drodd,
Nwyfiant ehedodd, ac iechyd a ffodd;
Diwres fy awen, diffoddwyd ei thân,
Henaint a'm lluddiodd, a gwywodd y gân.

Ffarwel i mywyd, fu 'n freuddwyd o fri,
Ffarwel fy nhelyn, fy eilun wyt ti;
Llawen a fuost mewn neithior a gwledd—
Mud fydd dy dannau pan elwyf i'r bedd.

Moeswch y Delyn am unwaith i mi,
Dyma 'r dôn olaf a ganaf i chwi;
Pan yn fy amdo yn huno mewn hedd,
Fy awen a chwery y dôn ar fy medd.

Dameg y Ddraenen.

I.

Y N niwedd Mai gwyrdd-ddeiliog, a mi yn rhodio
'n syn,
Hyd laswellt Parc hyfrydlon, ar fin tryloyw lyn,
Mi welais Ddraenen îrdwf, a myrdd o flodau glân,
Fel cawod o blu eira y'mhlith y deilos mân.

Mi sefais yn fyfyrgar i syllu ar ei gwedd,
Gan ddweyd, O! dyma goron o harddwch ac o
hedd;
Mae 'r gwyrdd yn ieuangc-iraidd, a'r gwyn yn dlws
a glân,
Pob brigyn a phob blodyn yn hudawl destun cân.

Hyfrydedd perarogledd a roddwyd iddi hi,
Ei gwyneb adlewyrchir yn llawen gan y lli';
A thra 'r wy 'n gwel'd y sylwedd a'r cysgod bob yn
ail,
Awelon pêr chwareuant a dawnsiant efo'r dail.

Mae anian yn ei haeledd yn gwisgo 'r ddraenen
wen;
Fe 'i hoffir gan y ddaear, fe 'i cerir gan y nen:
Ond byr yw ei gogoniant,—cyn pen y mis hi fydd
Heb flodyn ar ei brigyn i wenu ar y dydd.

Pan ddaw y gauaf gerwin i rodio 'r ddaear laith,
A'i anadl fe wywa bob deilen ar ei daith,
A'u chwalu yn wastraffus hyd wyneb daear lawr;
Anhygar fydd y Ddraenen, a noethlwm fydd ei gwawr.

Pryd hynny gwelir pigau na welwyd hwynt cyn hyn,
Pan oedd y Ddraenen hawddgar mewn gwisg o wyrdd a gwyn;
Ond pigyn ar bob brigyn o'i choryn geir yn awr,
Heb ddeilen werdd i'w guddio, na blodyn pêr ei sawr.

II.

Ti lengcyn ieuangc nwyfus, sy 'n hoffi cân y bardd,
A'r ehediadau bywiog yn chwim o'i galon dardd,
Wrth edrych ar y Ddraenen yn ei gogoniant gwiw,
Gan garu pur deleidion ei gwedd, ei llun, a'i lliw;

Ystyria pan yn ieuangc, a gweisgi ar dy droed,
Fod bywyd fel y Ddraenen, pan f'om yn ugain oed:
Y gwyrddion ddail yn îrdwf, a'r blodau 'n gannaid iawn,
A hafaidd yw pob teimlad a dardd o'r galon lawn.

Pryd hynny byddi 'n syllu ar lendid swynawl merch,
Yn ofni a dymuno—yn gryf, a chlaf o serch—
Yn dottio ar y rhosyn sy 'n addurn ar ei grudd,
Heb weled yn dy nwyfiant y pigyn sydd yng nghudd.

Ond blodau weli beunydd yn amgylchynu Gwen,
A blodau milwaith harddach na blodau 'r Ddraenen wen;
Ac anhawdd iawn yw credu fod pigau yn eu plith,
Nac yn y llygaid gloywon ddisgleiriant fel y gwlith.

Addola, fachgen anwyl, addola 'th eneth wiw,
(Na hidia am y pigau,) addola 'i llun a'i lliw;
Tra byddoch yn eich blodau, yn llawn o swynion serch,
Addoliant a fydd pleser a mwynder mab a merch.

Ar ol yr holl fwyneiddiant, daw henaint ar ei hynt,
Gan chwalu 'r blodau tlysion yn gawod gyd â'r gwynt;
Pryd hynny daw y pigau i boeni ddydd a nos—
Hen wrachen wedi crychu fydd morwyn ieuangc dlos.

Y fun fu gynt yn heinyf, fel ewig yn y coed,
Sy 'n awr yn hen a musgrell, a thrwsgwl ar ei throed,
Yn nychu mewn afiechyd, a'i heinioes yn ddi hoen;
Anhyfryd yw ei bywyd, a'i byd sy 'n llawn o boen.

Bu unwaith yn ei blodau, mor hardd a'r Ddraenen wen;
Mae 'n awr fel Draenen gauaf â phigau yn ei phen:
Awelon serch ni ddeuant i chwareu yn ei gwedd,
Ond gwywo wna, a chrino, nes elo i ddu fedd.

Ac felly 'r holl bleserau a geir o dan y nen,
Ail ydyut yn eu blodau i frig y Ddraenen wen;
'D oes odid bleser perffaith i'r cryf, y call, a'r ffôl,
Na edy, 'r ol ymadael, ryw bigyn ar ei ol.

Pan fyddis yn ymlonni yng nghwmni difyr dawn,
A chwrw a gwin yn gwênu, a lliwio gwydrau llawn,
Yn aberth i foddlondeb—ffraethineb ddyd ei thân,
I ennyn chwerthin ynfyd er gwynfyd gwŷr y gân.

Bydd afiaeth yn blodeuo, gan hwylio helynt tôst,
Yn canu, dwndro, rafio, heb hidio am y gost;
Y galon mewn gogoniant, a'r tafod llym mewn hwyl—
Gallasech dybio, weithian, fod dieifl yn cadw gwyl.

A gelwir hyn yn bleser, gan ofer ofer wŷr;
Ond drannoeth daw y pigau, fel yspardynau dur,
A dygyn y trywanant tu fewn i'r fron a'r pen—
Anhygar fydd y ddaear—cymylog fydd y nen.

Anhygar a fydd pobpeth—anfelus fydd y tŷ,
A'r meddwl yn trybaeddu yn drist mewn cwmmwl du:
Y galon a fu neithiwr yn gawres ddewr a llon,
Sydd heddyw 'n llwfr ac isel, yn crynu yn y fron.

Blodeuo a wna afiaeth am ennyd fach yn siwr,
Gan gynnyg gau gysuron i ddenu calon gwr;
Ond gwywa yn ddisymmwth, gan adael pocced lom,
A phigau y gydwybod i grippio 'r galon drom.

Rhyw benbleth o drafferthion yw 'n bywyd i ni oll,
Ac ar y siwrne ddyrus rhaid ini dalu 'r doll,
A theimlo trymder calon tra byddom yn y byd—
Y blodau sydd am ennyd—y pigau sydd o hyd.

Yr Awen a'r Afon.

O! AFON Elwy loyw lân,
Wyt eilun o anwyldeb;
Mae Tal a minnau ar y bryn,
Yn dottio ar dy wyneb:
Pelydrau 'r haul a'th hoffant di,
Ac ynot y disgleiriant;
Y lleuad wen, a sêr y nen,
Eu llewyrch ynod welant:
Cenhedloedd ddeuant ac a ânt,
O oes i oes yn ddilyth;
Ond byw a heinyf wyt o hyd,
A llifo wnei 'n dragyfyth.

Y coedydd mawrion ar dy fin,
A chwyfiant ac ymlonnant;
Y llon-ddail ddawnsiant i dy gân,
Awelon a'th gusanant:
Y blodau wenant yn dy wên,
Mewn mwynder adlewyrchiant;
A balch yw 'r gro o'th grydio di,
A'r dolydd a'th gofleidiant:
Cenhedloedd ddeuant ac a ânt,
O oes i oes yn ddilyth;
Ond byw a heinyf wyt o hyd,
A llifo wnei 'n dragyfyth.

Wyt amryliwiog yn y ddôl,
A brigwyn ar yr argae,
A mud a llonydd yn y llyn,
A llafar yn y rhydau:
O! Afon Elwy loyw lân,
Wyt eilun o anwyldeb;
Mae Tal a minnau ar y bryn,
Yn dottio ar dy wyneb:
Cenhedloedd ddeuant ac a ânt,
O oes i oes yn ddilyth;
Ond byw a heinyf wyt o hyd,
A llifo wnei 'n dragyfyth.

Dydd a Nos.

MAE'R gogoneddus Haul yn gwenu 'n siriol
Ar wych a gwael, ac ar y doeth a'r annoeth;
Ysplenydd gawr yn rhedeg gyrfa nefol,
Heb hidio dim am dlodi nag am gyfoeth;
Drwy bedwar ban y byd mae plant daearol
Yn hoffi gwel'd ei wyneb glân eiriasboeth:
Anghyfnewidiol a thrag'wyddol yw,
Ac ef yw pennaf gynrychiolydd Duw.

A Banon dlos y nos, y lleuad wen,
Fenthyca wawl o wyneb teg yr Huan;
Pruddglwyfus yw ei gwên yn entrych nen,
Fel pe 'n flinedig ar ei phen ei hunan;
Fel gwyryf gain bydd weithiau 'n gwisgo llen
O gymmyl gwynion gyd â ridens arian;
Waith arall bydd yn cilio 'n llwyr o'r golwg,
Rhag iddi weled pechod byd a'i fawrddrwg.

A myrdd o ser ddisgleiriant megis gemmau,
I harddu mantell assur y ffurfafen;
Tryloewon ydynt yn yr eangderau,
Perlau a deimonds Duw yn pefrio 'r wybren—
Astronomyddion dd'wedent bod nhw'n heuliau
I fil o fydoedd fry tu hwnt i'r heulwen—
Sisiala 'r Greadigaeth yn fy nghlyw,
Mawr a rhyfeddol yw gweithredoedd Duw.

Ac mewn cydmariaeth, beth y'm ni yn awr?
Cre'duriaid gwaelion, llawn o boen a blinfyd,
Yn byw am ennyd bach ar ddaear lawr,
Annedwydd, hyd yn oed yn ein dedwyddyd;
Ac angau megis anorchfygol gawr
A'n tyrr i lawr yng nghanol rhwysg ein bywyd:
Er iechyd, hyder, balchder, dysg, a dawn,
O'r pridd y daethom, ac i'r pridd yr awn.

Gweno Fwyn Gu.

ADDOI di fy nghariad i gysgod y llwyn,
Hai ho! Gweno fwyn gu,
I glywed yr adar yn trydar ar dwyn,
Hai ho! Gweno fwyn gu;
Daw 'r fronfraith i ganu ar frigyn y pren,
A'r hedydd i gwafrio yn entrych y nen,
A'r fwyalch i byncio i blesio fy Ngwen,
Hai ho! Gweno fwyn gu.

Mi wn bydd y rhosyn prydferthaf ar wŷdd,
Hai ho! Gweno fwyn gu,
Yn chwennych cusanu y gwrid ar dy rudd,
Hai ho! Gweno fwyn gu;
A'r lili 'n adlewyrch claerwynder dy fron,
Gan ddweyd, Ow na fawn i cyn hardded a hon,
A minnau 'n addoli dy lygad glas llon,
Hai ho! Gweno fwyn gu.

Ar ol imi rodio drwy gydol y dydd,
Hai ho! Gweno fwyn gu,
Y nos wrth fyn'd adre cei gyffes fy ffydd,
Hai ho! Gweno fwyn gu;
Bydd swyn ein cwmniaeth fel miwsig a medd,
A'r lloer yn tywynu yn hoyw mewn hedd,
A'r ser yn ddisgleiriach pan welant dy wedd,
Hai ho! Gweno fwyn gu.

O! mawr ydyw pleser a mwynder fy myd,
Hai ho! Gweno fwyn gu,
Pan fyddwyf yn dottio ar lendid dy bryd,
Hai ho! Gweno fwyn gu;
A'm meddwl yn rhedeg o hyd ac o hyd
Ar bethau mwy gwerthfawr na chyfoeth y byd,
Priodas a chariad a baban a chryd,
Hai ho! Gweno fwyn gu.

Seren y Wawr.

"Beautiful Star in Heaven so bright."

EFELYCHIAD.

SEREN y Wawr—Gem hardd y fry,
Gloywaf wyt o'r nefol lu;
Gwawl arianawl a roddi 'n awr,
Seren fendigaid—seren y Wawr—
Seren deg wen—Banon uwch ben—
Ti yw 'r ddisgleiriaf a'r dlysaf o dlysion y nen.

Tybiaf mai iaith dy wên i mi
Yw—"O! esgyn attaf fi;
Tyred yma i fyw o hyd,
Esgyn a gadael wagedd y byd:"
Seren deg wen—Banon uwch ben—
Ti yw 'r ddisgleiriaf a'r dlysaf o dlysion y nen.

Deuwn, pe medrwn, pe medrwn, attat ti,
Ond pryderus ydwyf fi:
O! na b'ai f'enaid i mewn hedd,
A nghalon yn bur fel dy ddisglaer wedd:
Seren deg wen—Banon uwch ben—
Ti yw 'r ddisgleiriaf a'r dlysaf o dlysion y nen.

Y Gadlys.

THE CAMP.

MAE cyffro yn y Gâdlys,
A chyffro yn y wlad;
Mae gwŷr a breichiau grymus
Yn gedyrn yn y gâd:
Calonnau sydd fel ufel
Yn tanio yspryd croes i hedd,
I gochi min y gloywlym gledd
Yn offrwm i dduw Rhyfel.

Gwladgarwch archa orchest
Y milwr dewr a hyf,
Sydd yn y waedlyd loddest
Yn graffus ac yn gryf,
Yn ymladd â'i elynion,
Gan dynnu lluoedd dan ei draed,
A gwneud difrodus faes y gwaed
Yn fedd i anfarwolion.

Ffarwel y Telynor.

The Minstrel's Adieu to his Native Country.

MYN'D yr wyf o fy ngwlad,
Lle mae f' anwyl fam a nhad;
Gwae imi dd'od y dydd,
Dagrau dreiglant dros fy ngrudd:
Ysgwyd llaw—braw i'm bron
Adael hen gymdeithion llon—
Eiliwn dôn, Delyn fwyn,
Chwydded hiraeth yn fy nghwyn.

Pan ym mhell o fy ngwlad,
Troi a wna fy nghalon fâd
Gyda serch atti hi,
Anwyl wlad fy mebyd i:
Ym mhob tôn a phob cân
Moliant ro'f i Gymru lân,
Tra bo medd, gwledd, a gwyl,
Tra bo nhelyn bêr mewn hwyl.

Cymru Lân.

PA wlad sy mor berswynol a'n gwlad hynodol ni?
Pob bryn a dyffryn siriol sydd o anfarwol fri;
Gorenwog yw pob ardal am wŷr sy 'n cynnal cân,
A rhydd yw ein mynyddoedd, a llon ein glynoedd glân:

Cymru lân, gwlad y gân; Cymru lân, gwlad y gân;
Dy feibion oll a unant o hyd yn ddiwahân,
Mewn moliant, clod, a bri, i'th anrhydeddu di,
A'th garu yn oesoesoedd, Cymru lân, gwlad y gân.

Disgleirio wna dy Awen fel seren ym mhob sir,
Disgleiriodd yn foreuol, a disglaer fydd yn hir;
Gwladgarwch sydd yn gwenu i ddenu nerth oy ddawn
I ganu dy ogoniant o dant a chalon lawn.
Cymru lân, gwlad y gân, &c., &c.

Dedwyddyd a thangnefedd, a rhinwedd fo i'th ran,
A'th lwyddiant fo ar gynnydd o fôr i fynydd ban;
Monwesa dduwies Rhyddid, hoff Ryddid! lân ei phryd,
Nes byddo ei hathrylith yn fendith i'r holl fyd:
Cymru lân, gwlad y gân, &c., &c.

Toriad y Dydd.

The Dawn—or, The Break of Day.

Y NIWLIOG nos a gilia o wydd y wiwlan Wawr,
Sy'n gwrido yn y dwyrain dêr i lonni daear lawr;
Y glaswellt sydd yn dryfrith o berlau gloywon gwlith,
A blodau tlysion rhwng y dail a wnant y gwyrdd yn frith;
Cantorion pêr y llwyni gydleisiant gynnar gân
O groesaw i Aurora fwyn sy 'n d'od ar gymmyl glân;
Mae anian yn llawenu, a'r ddaear werdd mewn bri,
A phobpeth byw o fewn y byd yn ddedwydd cnd y fi.

Mae 'r anwyl fun a gerais o dan y ddaear werdd—
O! fenyw fwyn, ni chlyw fy nghwyn, ni wrendy ar fy ngherdd;
Ni wel y dagrau heilltion a dreiglant dros fy ngrudd,
Wrth gofio swyn y cusan mwyn a ge's o'i gwefus rudd:
Ond angau a'i cymmerodd yn gariad iddo 'i hun,
Ac angau sy 'n cusanu mîn fy anwyl anwyl fun;
Mae pigyn yn fy nghalon, a gofid yn fy ngwedd,
Galaru a hiraethu wnaf nes byddaf yn y bedd.

Cymmer Ofal.

PAN fo siriol wênau merch,
A'i llygaid llon yn ennyn serch;
Pan fo gwrid ei gruddiau hi
Yn denu 'th galon di:
Er gogoniant glendid hon,
Mae brâd yn nythu yn ei bron:
Cymmer ofal, y mae Gwen
Yn chwerthin am dy ben.

Melus wledd yw cariad mun,
A hardd a hudol yw ei llun;
Swynol yw ei gwefus gu,
A'i pheraidd lais i lu:
Ond er gwawl ei gwyneb glân,
A llygaid nwyfus llawn o dân;
Cymmer ofal, y mae Gwen
Yn chwerthin am dy ben.

Ffalsder chwery ar ei gên,
Ac anffyddlondeb yn ei gwên;
Nid tydi yw cariad hon,
Na brenin braf ei bron:
Sieryd i dy dwyllo di,
Ond arall bïa 'i chalon hi;
Cymmer ofal, y mae Gwen
Yn chwerthin am dy ben.

"Plygiad y Bedol."

EFELYCHIAD.

PAHAM y mae nghalon a'm meddwl yn brudd,
A phryder a dagrau yn gwelwi fy ngrudd?
Mae newydd galarus yn llenwi ein bro,
A'r morthwyl yn tingcian ar engan y Go'.

Nid plygiad y bedol, na 'i gosod ychwaith,
Na Hywel yn canu wrth ddilyn ei waith,
Sy 'n gwaedu fy nghalon fel brathiad y cledd,
Ond ofn am fy ngnariad sy 'n llwydo fy ngwedd.

Ceffylau 'n Tywysog bedolodd yn gu,
Pedolodd geffylau Capteiniaid y llu;
Mae 'r milwyr yn barod i gychwyn i'w taith,
A Hywel fy ngnariad ar orphen ei waith.

Yn awr mae 'n pedoli ei geffyl ei hun,
Ac wed'yn fe esyd ei gledd ar ei glun,
I ddilyn ein Gwron Llywelyn a'i gâd,
I ymladd dros ryddid a breintiau ein gwlad.

Dy'gwyl Dewi.

Tôn—"St. David's Day."

TRIGOLION Gwalia, o un fryd,
Mwyn unwn lais a thant,
Tra rhy y Bardd ei gân i'r byd,
O glod i Ddewi Sant:
Etholwyd Dewi gan y Nef
I swydd o uchel fri:
A phersonoliaeth ydyw ef
O'n gwir wladgarwch ni:

Mae coffadwriaeth am y dydd,
I Gymru hoff a'i phlant,
Yn wledd o gariad, dawn, a ffydd,
Ar Ddy'gwyl Dewi Sant.

Caradog a Llywelyn fâd,
A Glyndwr fuont bur,
A ffyddlon dros ein hanwyl wlad,
A dewrion fel y dur:
Ein Baner chwyfiodd yn y gwynt,
Ar grib pob mynydd ban;
A'r Ddraig Goch gynt, ar ruthrol hynt,
Ennillodd ym mhob man:

Mae coffadwriaeth, &c.

Wel, byddwn ninnau yn ein tro,
Ar dir a moroedd maith,
Yn bur i'n genedigol fro,
Ein cenedyl a'n hiaith:
Mae 'r Cymro cywir, nos a dydd,
A hiraeth yn ei fron,
Am fyn'd ar edyn serch a ffydd
Yn ol i Walia lon:

Mae coffadwriaeth, &c.

Gruffydd ab Cynan.

MAE hiraeth am fy anwyl wlad
Yn gwlwm am fy nghalon i;
Mae 'r adyn a gynlluniodd frâd
Yn uchel yn ei rwysg a'i fri;
A minnau 'n cwyno nos a dydd,
Yn rhwym ym mysg gelynol lu;
Ow, ow, na fawn yng Ngwalia rydd,
Yn rhodio ei dyffrynoedd cu.

Mae hiraeth am bob bryn a phant,
A gwaun a dôl, a mynydd ban,
A hiraeth am fy ngwraig a mhlant
Yn treiddio drwy fy nghalon wan:
Anrhydedd, mawredd, parch, a bri,
A gefais gynt gan ddeiliaid pur—
Maent wedi ffoi—nid oes i mi
Ond carchar a chadwynau dur.

Pa le mae 'r milwyr mawr eu bri,
A'r arwyr dewrion, cedyrn câd,
Y rhai a'm dilynasant i
I ymladd dros ein hanwyl wlad?
Y maent yn llon, a minnau 'n brudd,
'D oes neb a wrendy ar fy nghwyn;
Na neb i'm gollwng i yn rhydd,
A'm dwyn yn ol i Walia fwyn.

Mentra Gwen.

'RWYF fel colommen wen,
Gweno fwyn, Gweno fwyn,
Mewn cariad dros fy mhen,
Gweno fwyn;
Yn cwyno ac yn canu
Am danat, eneth fwyngu:
Gwnawn bobpeth i'th ddiddanu,
Gweno fwyn, Gweno fwyn.

Melusach im' na chân,
Gweno fwyn, Gweno fwyn,
Yw mêl dy wefus lân,
Gweno fwyn;
Mae 'th ddêngar liwgar lygaid,
A'th fonwes gynnes gannaid,
Yn fanna i fy enaid,
Gweno fwyn, Gweno fwyn.

Mae gwên dy wyneb hardd,
Gweno fwyn, Gweno fwyn,
Yn fendith i dy Fardd,
Gweno fwyn;
A gwrid dy ruddiau tirion
Yn ennyn serch fy nghalon
I'th garu di yn ffyddlon,
Gweno fwyn, Gweno fwyn.

Ni fynnwn ar fy nhaith,
Gweno fwyn, Gweno fwyn,
At drag'wyddoldeb maith,
Gweno fwyn;
Ond cael fy meinwen anwyl
Bob amser yn fy ymyl,
Hyd berwyl cadw noswyl,
Gweno fwyn, Gweno fwyn.

Ffarwel i Gymru.

FFARWEL i Gymru, mae 'r llong ar ei thaith,
I'm cludo i wledydd tu hwnt i'r môr maith;
Ac er i'r llong symud a newid ei lle,
Mae 'r nodwydd yn pwyntio i'r Gogledd o'r De';
Ac felly fy nghalon—y mae hi bob awr
Yn pwyntio 'n sefydlog at Gymru deg wawr.

Gofid yw gadael bryn, dyffryn, a dôl—
Ow resyn na fedrwn ddychwelyd yn ol:
Fel 'deryn diniwed yn 'hedeg i'w nyth,
I'th fonwes fendigaid ehedwn yn syth,
I chwilio am loches o stormydd y byd,
Heb bryder na gofal i'th garu o hyd.
Amen, Walia wen!
Amen, Walia wen!

I'r Awen.

O! DDEDWYDD ddydd i ddawn ein henwlad
I swyno pawb ar wyneb daear gron;
Cydunwn oll mewn rhwymyn cariad
I seinio pêr alawon lleddf a llon.

Byw byth bo 'r gân, byw bo cerddoriaeth,
Gwir enaid gwawl yn ennyn dwyfol dân
I lenwi 'r byd âg ysprydoliaeth,
Fel adlais llu y nefoedd loyw lân.

Awen, tyr'd o blith nefolion,
I gysuro daearolion;
Dawnus gares anfarwolion
Nef a daear ydwyt ti:
Cain a gloywon dy adenydd,
Pan yn hofian uwch ein glennydd,
I gyflwyno y llawenydd
Leinw ein calonau ni.

Gogoneddus yw dy wênau,
Mêl a lifa o dy enau;
Miwsig awel y wybrennau
Yw dy hudol lais i ni:
Awen, tyr'd o blith nefolion,
I gysuro daearolion;
Dawnus gares anfarwolion
Nef a daear ydwyt ti:

Gweddi Poland.

TYDI, O! Arglwydd, yn yr amser gynt,
A'th gain ogoniant wneist ein hamgylchynu;
A chedwaist ni ar drychinebus hynt,
Drwy rym dy gariad a dy ddirfawr allu:
Gweddïwn wrth dy allor, Ddwyfol Dad—
Dod ini Ryddid, dod i ni ein Gwlad.

Gofidiaist yn ein cwymp, drugarog Dduw,
A llawenychaist yn ein buddugoliaeth:
O ddyfnder ingoedd angau, Arglwydd, clyw
Ni 'n llefain am dy nawdd a'th waredigaeth:
Gweddïwn wrth dy allor, Ddwyfol Dad—
Dod ini Ryddid, dod i ni ein Gwlad.

Gad ini gael ein bendigedig Wlad,
Ac etifeddiaeth ein henafiaid—RHYDDID
Ymblygu wnelom i dy 'wyllys fâd—
Na ddïal arnom, Arglwydd, yn ein gofid:
Gweddïwn wrth dy allor, Ddwyfol Dad—
Dod ini Ryddid, dod i ni ein Gwlad.

Cadwynau 'r gormesdeyrn chwilfriwia di,
A chwâl hwynt fel y mânus hyd ddaearlawr;
A dyro obaith i'n calonnau ni;
Goleua, Arglwydd, ein tywyllwch dirfawr:
Gweddïwn wrth dy allor, Ddwyfol Dad—
Dod ini Ryddid, dod i ni ein Gwlad.

Yr Hollalluog Dduw, d' ewyllys di
  Rëola bob llywodraeth a brenhiniaeth:
Rhag ystryw 'r rhai sydd i'n caethiwo ni,
  Dod ini, Arglwydd gyflawn waredigaeth:
Gweddïwn wrth dy allor, Ddwyfol Dad—
Dod ini Ryddid, dod i ni ein Gwlad.

Erglyw, O! Arglwydd Dduw, ein gweddi ddwys,
  Dilëa Ryfel ac achosion tristwch:
Gad ini rodio drwy 'n ffrwythlon-wlad lwys
  O dan fanerau ceinion duwies Heddwch:
Gweddïwn wrth dy allor, Ddwyfol Dad—
Dod ini Ryddid, dod i ni ein Gwlad.

Emyn.

Miwsig—"Austrian National Anthem."—Haydn.

ERGLYW, Arglwydd yr arglwyddi,
Llefain arnat wnawn o hyd;
Dyro nawdd a chymmorth ini,
Ar ein dyrus daith drwy 'r byd:
Gofidiasom, a wylasom,
Am bechodau enbyd iawn;
Trugarhâ, a thywallt arnom
Wlith dy ddwyfol ras a dawn.

Bendigedig fo dy enw,
Duw daionus ydwyt Ti;
Barnwr mawr y byd a'r meirw,
Craig ein Iachawdwriaeth ni:
Nef a daear a'th foliannant,
Pawb addolant tra b'ont byw
Wir ffynnonell pob gogoniant,
Ein galluog Arglwydd Dduw.

DIWEDD.

CAERNARFON:

Cyhoeddedig gan Gwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig (Cyf.), Swyddfa'r "Genedl Gymreig."

THE LIBRARY OF THE

MAR 25 1930

UNIVERSITY OF ILLINOIS

UNIVERSITY OF ILLINOIS-URBANA
891.661 J716C C001
Caneuon gyda rhagdraeth gan Anthropos.
3 0112 089160003